

# Monitro dalfeydd

16eg **Adroddiad Blynyddol**  
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol  
y Deyrnas Unedig  
**2024/25**





Government of the United Kingdom  
Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU

## Monitro dalfeydd

# 16eg Adroddiad Blynyddol ar Fecanwaith Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

2024/25

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Rhagfyr 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn i'w weld yn [www.gov.uk/official-documents](https://www.gov.uk/official-documents) yn [www.official-documents](https://www.official-documents).

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i [UKNPM@hmiprisons.gov.uk](mailto:UKNPM@hmiprisons.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-6108-9

E03490465 12/25

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

---

## Cynhyrchwyd yr holl waith celf a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan y rhai a gedwir yn y ddalfa ac fe'u hatgynhyrchir drwy garedigrwydd Koestler Arts

- t6: **Waves**, Carchar EF Five Wells, Paentiad, 2025.
- t12: **Night Owl**, Carchar EF Lowdham Grange, Categori Thema: Adenydd, 2025.
- t19: **Woman**, Carchar EF Wealstun, Portread, 2025
- t29: **Escape**, Carchar EF Elmley (Sheppey Cluster), Paentiad, 2025
- t44: **Ethiopia**, Carchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Low Newton, Gwobr Gymeradwyedig am Ddyfrlliw a Gouache, 2024.
- t47: **I'm Watching You**, Gwasanaeth Prawf Swydd Stafford, Gwobr Canmoliaeth Uchel am Ddyfrlliw a Gouache, 2025.
- t52: **Ouseburn River**, Ysbyty Northgate, Lluniad, 2024
- t57: **Yard View**, Carchar EF Lewes, Gwobr Canmoliaeth am Baentiad, 2025.
- T61 **Fractured Seasons**, Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Deerbolt, Paentiad, 2024
- t64: **Easter Egg Owl**, Carchar EF Holme House, Gwobr Canmoliaeth Uchel am Gelf Tecstilau, 2025

# Cynnwys

Rhagair	4
<b>Cyflwyniad: Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU</b>	<b>6</b>
Beth yw "artaith"?	11
Rôl a Phwrpas Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU	11
Erthygl 19 OPCAT	11
<b>Ymweliadau gan gyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol</b>	<b>12</b>
Cyflwyniad	13
Carchardai	15
Cadw mewnfudwyr	25
Cadw'n gaeth ac amddifadu o ryddid mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion	29
Dalfa'r heddlu	36
Trafnidiaeth a dalfa'r llys	40
Plant ac oedolion ifanc	42
<b>Argymhellion</b>	<b>47</b>
Dangosfwrdd adrodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol	48
Arferion Da: Gwybodaeth o 2024-25	51
Argymhellion Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU	58
Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon	60
Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Yr Alban	62
<b>Deddfwriaeth ddrafft a deddfwriaeth bresennol</b>	<b>64</b>
Deddfwriaeth iechyd meddwl: angen diwygio ledled y DU	65
Newidiadau dedfrydu	66

# Rhagair

## **Dyma 16eg Adroddiad Blynyddol ar Fecanwaith Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol wedi cynnal dros 50,000 o ymweliadau ar draws pob categori cadw yn y DU, gan gynhyrchu dros 3,000 o argymhellion a nodi cannoedd o enghreifftiau o arferion da. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn cynrychioli'r craffu atal mwyaf cynhwysfawr ar gadw yn unrhyw le yn y byd.

Mae'r darlun maen nhw'n ei gyfleu yn un o bryder parhaus a chynyddol. Mewn gormod o leoliadau, mae'r un problemau systemig yn codi eto, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae amodau sy'n is o lawer na safonau hawliau dynol rhyngwladol a domestig wedi cael eu normaleiddio, sy'n gwbl annerbyniol. Mae gorlenwi, prinder staff, seilwaith sy'n dirywio ac ynysu am gyfnod hir yn parhau i danseilio urddas, diogelwch a llesiant pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ar draws pob gwlad ac ar draws pob math o gadw dan glo.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hwn yn sobri rhywun. Yn yr ystâd carchardai, mae'r argyfwng capasiti wedi cyrraedd lefel annioddefol. Mae amodau mewn rhai sefydliadau yn parhau i dorri safonau gofynnol urddas pobl. Mae gorlenwi a dadfeilio wedi dwysáu, gyda staff ac arweinwyr yn ymdrechu yn erbyn amgylchiadau amhosibl i gynnal diogelwch a gwedduster. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol wedi rhybuddio dro ar ôl tro na ellir datrys yr argyfwng hwn drwy ymestyn systemau presennol ymhellach, ond dim ond drwy ddiwygio strwythurol, buddsoddi ac ymrwymiad i leihau dibyniaeth ar gadw fel



ymateb diofyn.

Mae'r darlun yr un mor bryderus o ran cadw mewnfudwyr. Mae trais, hunan-niweidio a chadw am gyfnod amhenodol i gyd wedi cynyddu'n sylweddol, gyda thystiolaeth gynyddol o iechyd meddwl gwael a dirywiad mewn diogelwch i'r sawl sydd dan glo. Ym maes iechyd meddwl a gofal cymdeithasol, mae sefydliadu pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig yn yr hirdymor yn parhau i fod yn gyffredin, gydag unigolion yn cael eu cadw am flynyddoedd mewn lleoliadau nad ydynt yn therapiwtig nac yn briodol.

Nid yw'r rhain yn bryderon newydd. Dyma'r un patrymau methiant systemig a nodwyd mewn adroddiadau olynol gan Fecanwaith Atal Cenedlaethol, y Cenhedloedd Unedig a'r Pwyllgor Ewrop ar Atal Arteithio dros fwy na degawd. Rhaid i hyn ddod i ben.

Ac eto, ymysg yr heriau pryderus hyn, gellir dod o hyd i achosion o optimistiaeth ofalus. Mewn cartrefi diogel i blant, mae modelau sy'n ystyriol o drawma fel y Fframwaith ar gyfer Gofal Integredig (sef SECURE STAIRS) yn dangos manteision amlwg i blant a staff fel ei gilydd. Mae lansio ein Dangosfwrdd Adrodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol newydd eleni yn gam enfawr o ran tryloywder ac

atebolrwydd: am y tro cyntaf, gellir olrhain, dadansoddi a rhannu pob argymhelliad a wneir gan gorff Mecanwaith Atal Cenedlaethol, gan roi darlun cliriach o faterion systemig ar draws pob lleoliad cadw. Mae'n galluogi llunwyr polisïau, ymarferwyr a'r cyhoedd i ddadansoddi patrymau, nodi meysydd sy'n peri pryder parhaus, a mesur cynnydd dros amser. Mae'n cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y mae'r DU yn deall ac yn ymateb i dystiolaeth o fonitro cadw.

Yn rhyngwladol, mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU wedi parhau i chwarae rôl arweiniol yn y gymuned atal fyd-eang, gan weithio'n agos gyda mecanweithiau eraill a phartneriaid rhyngwladol i gryfhau'r gwaith o weithredu Arteithio a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) ledled y byd. Yn ddomestig, mae llais cyfunol y Mecanwaith Atal Cenedlaethol wedi dylanwadu ar ymgynghoriadau ac ymchwiliadau deddfwriaethol allweddol ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnig argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ddiwygio cyfraith iechyd meddwl, strategaethau cydraddoldeb, a chyfiawnder a dedfrydu plant.

Mae tîm canolog y Mecanwaith, a'r 21 corff sy'n rhan o'r mecanwaith gyda'i gilydd, yn ymgorffori ymrwymiad y DU i atal pobl rhag cael eu trin yn wael, ond nid yw'r argymhellion yn cael sylw o hyd. Heb weithredu, bydd yr un geiriau'n cael eu hysgrifennu eto'r flwyddyn nesaf. Fel yr oeddent y llynedd.

Felly, mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn ailadrodd ar frys ac heb ymddiheuriad y neges na all arolygu a monitro ar eu pen eu hunain atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae atal yn gofyn am arweinyddiaeth, buddsoddiad a'r dewrder i wynebu gwirioneddau anghyfforddus am rôl cadw mewn cymdeithas fodern. Nawr yw'r amser i wrando ar ein neges, ac ar gyfer newid cadarnhaol.

Bymtheg mlynedd ar ôl sefydlu'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol, mae'r model atal yn parhau mor hanfodol ag erioed. Ein her ar y cyd yw troi arsylwi parhaus yn welliant parhaus - gan sicrhau bod urddas pob person sy'n cael ei amddifadu o'i ryddid nid yn unig yn cael ei gydnabod mewn egwyddor ond yn cael ei wireddu'n ymarferol.

Rydym yn diolch o galon i bawb sy'n gweithio yn yr amgylcheddau mwyaf heriol, ac i'r rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid. I'r 3,500 a mwy o staff a gwirfoddolwyr ar draws y Mecanwaith Atal Cenedlaethol sy'n ymgymryd â'r gwaith hanfodol o ymweld, arsylwi ac adrodd - mae eich ymdrechion yn parhau i gynnal yr egwyddor sydd wrth wraidd OPCAT: na ddylai unrhyw berson, yn unrhyw le, gael ei arteithio na'i drin yn wael.



**Sherry Ralph,**  
Cadeirydd, UK NPM



**Sam Gluckstein,**  
Pennaeth UK NPM

# Cyflwyniad: Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU



Yn 2002, mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT), a greodd system ddeuol genedlaethol a rhyngwladol o ymweliadau rheolaidd ag unrhyw lle lle mae pobl yn cael eu hamddifadu neu lle gallent gael eu hamddifadu o'u rhyddid:

1. Mecanweithiau Atal Cenedlaethol
2. Yr Is-bwyllgor ar Atal Artaith

Yn ôl erthygl 19 OPCAT, **mae Mecanweithiau Atal Cenedlaethol** yn sefydliadau domestig sydd â'r mandad i wneud y canlynol:

- Archwilio'n rheolaidd y driniaeth a roddir i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn manau cadw, gyda golwg ar gryfhau eu hamddiffyniad rhag artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall.
- Gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol er mwyn gwella triniaeth ac amodau ac atal artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall.
- Cyflwyno cynigion a sylwadau ynghylch deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli neu ddeddfwriaeth ddrafft.

(Gweler erthyglau OPCAT 17-23)

### **Mae'r Is-bwyllgor ar Atal Arteithio**

yn system ryngwladol o arbenigwyr annibynnol a diduedd a etholir gan bartion gwladwriaethau i OPCAT a fydd yn ymweld â'r gwladwriaethau hynny er mwyn gwneud y pethau canlynol:

- Cynghori a chynorthwyo Mecanweithiau Atal Cenedlaethol ar amddiffyn y rhai dan glo rhag artaith a chael eu trin yn wael
- Gwneud argymhellion i wladwriaethau i gryfhau capasiti a mandadau Mecanweithiau Atal Cenedlaethol
- Cadw mewn cysylltiad â Mecanweithiau Atal Cenedlaethol sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth

(Gweler erthyglau OPCAT 11-16)

Y DU oedd un o'r gwledydd cyntaf i gadarnhau OPCAT yn 2003, a chafodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ei greu ym mis Mawrth 2009.<sup>1</sup> Er bod rhai gwladwriaethau wedi creu sefydliad newydd ar ôl cadarnhau OPCAT, mae'r DU wedi dynodi sefydliadau presennol sydd â'r rôl o ymweld â manau cadw i weithio gyda'i gilydd fel Mecanwaith Atal Cenedlaethol aml-gorff. Heddiw, mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn cynnwys 21 o sefydliadau, sy'n monitro gwahanol leoliadau cadw yn annibynnol ledled y DU, ac mae tîm canolog, sy'n cefnogi ac yn arwain cyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gyflawni eu cyfrifoldebau OPCAT, yn gwneud gwaith ar y cyd i atal pobl sy'n cael eu cadw rhag cael eu trin yn wael yn y DU, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o egwyddorion OPCAT, ac yn gweithio gyda mecanweithiau a sefydliadau rhyngwladol sydd â mandad i atal pobl sy'n cael eu cadw rhag cael eu trin yn wael.

<sup>1</sup> Mae OPCAT bellach wedi'i gadarnhau gan 92 o wladwriaethau.




## Arolygiaeth Gofal

Prif gorff sy'n arolygu Gwasanaethau Llety Diogel a Gofal Cymdeithasol yn yr Alban.



## Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Prif gorff sy'n arolygu Cyfleusterau Iechyd Meddwl Fforensig, Cadw Dan Glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn Lloegr.



## Arolygiaeth Gofal Cymru

Prif gorff sy'n arolygu Cartrefi Diogel i Blant, a Gofal Cymdeithasol DoLS yng Nghymru.



## Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)

Mae gan y Comisiynydd y pŵer statudol i fynd i mewn i unrhyw leoliad lle mae plentyn yn cael ei gadw.



## Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon

Prif gorff sy'n arolygu carchardai, dalfa'r heddlu, dalfa'r llys a chadw pobl ifanc yn y ddalfa yng Ngogledd Iwerddon.




## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Prif gorff sy'n arolygu cadw unigolion dan glo oherwydd iechyd meddwl yng Nghymru.



## Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)

Prif gorff sy'n arolygu dalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.



## Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF yn yr Alban

Prif gorff sy'n arolygu dalfa'r heddlu yn Yr Alban.



## Arolygiaeth Carchardai EF (Cymru a Lloegr)

Prif gorff sy'n arolygu carchardai a dalfeydd y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a chadw mewn canolfannau mewnfudo ledled y DU.



**Arolygiaeth Carchardai  
EF yn yr Alban**

Prif gorff sy'n arolygu ac yn monitro carchardai a dalfa'r llysoedd yn yr Alban.



**Cymdeithas Ymweliadau â'r  
Ddalfa Annibynnol**

Prif gorff sy'n cynrychioli monitro dalfa'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.



**Ymweliadau â'r Ddalfa  
Annibynnol Yr Alban**

Prif gorff sy'n monitro dalfa'r heddlu yn Yr Alban.



**Bwrdd Monitro Annibynnol**

Prif gorff sy'n monitro carchardai yng Nghymru a Lloegr a chadw mewn canolfannau mewn fudo ledled y DU.



**Bwrdd Monitro Annibynnol  
(Gogledd Iwerddon)**

Prif gorff sy'n monitro carchardai yng Ngogledd Iwerddon.



**Adolygwr Annibynnol o  
Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)**

Mae gan yr IRTL yr hawl i gael mynediad i'r ddalfa.



**Arsyllwyr Lleyg**

Prif gorff sy'n monitro trefniadau hebrwng a dalfa'r llys yng Nghymru a Lloegr.



**Comisiwn Lles  
Meddyliol yr Alban**

Prif gorff sy'n arolygu cadw dan glo oherwydd iechyd meddwl yn Yr Alban.



**Cynllun Ymweld â'r Ddalfa  
Annibynnol Bwrdd Plismona  
Gogledd Iwerddon**

Prif gorff sy'n monitro dalfa'r heddlu yng Ngogledd Iwerddon.



**Ofsted**

Prif Gorff sy'n arolygu Cartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn Lloegr.



**Awdurdod Rheoleiddio a  
Gwella Ansawdd**

Prif gorff sy'n arolygu mannau lle mae pobl yn cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a llety diogel i blant yng Ngogledd Iwerddon.



**Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban**

Gall weithio ar y cyd ar faterion sy'n peri pryder ar y cyd a chael pwerau mynediad statudol yn yr Alban.

# Darpariaeth ddaearyddol

## Yr Alban

- Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer Yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF ar gyfer Yr Alban (HMICS)
- Independent Custody Visiting Scotland (ICVS)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Arolygiaeth Gofal (CI)

## England

- Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)

## Gogledd Iwerddon

- Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI)
- Byrddau Monitro Annibynnol ar gyfer Gogledd Iwerddon (IMB NI)
- Cynllun Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
- Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

## Y Deyrnas Unedig


- Adolygwr Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)

## Wales

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

## Cymru a Lloegr

- Arolygiaeth Carchardai EF (Carchardai HMI)
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS)
- Cymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol (ICVA)
- Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
- Arsyllwyr Lleyg (LO)



## Beth yw “artaith”?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artaith yn amlinellu diffiniad cyfyngedig o “artaith”, fel unrhyw weithred fwriadol sy’n achosi poen neu ddioddefaint meddyliol neu gorfforol difrifol gan unigolyn sy’n gweithredu ar ran gwladwriaeth, at ddiben penodol, a allai olygu cosbi, dychryn, gorfodi, gwahaniaethu neu holi. Yn fras, mae artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol a diraddiol arall yn cyfeirio at niwed difrifol, naill ai’n gorfforol neu’n feddyliol, a gynhelir drwy amgylcheddau neu brofiadau, gan amddifadu rhyddid unigolyn drwy awdurdod y wladwriaeth. **Mae’r ddau wedi’u gwahardd yn yr un modd o dan unrhyw amgylchiadau.** Ochr yn ochr â gwahardd artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol a diraddiol o dan gyfraith ryngwladol, mae’n rhaid i wladwriaethau drin unrhyw un sy’n cael ei amddifadu o’i ryddid â dyngarwch a pharch at ei urddas cynhenid.

Mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn defnyddio’r term “trin rhywun yn wael” i ymdrin â phob elfen o artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol a diraddiol. Mae’r term hwn yn fwy cryno ac yn haws ei ddefnyddio. Ar ben hynny, oherwydd y deallwyd yn draddodiadol bod y Confensiwn yn Erbyn Artaith yn amddiffyn unigolion yn bennaf mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol, mae defnyddio’r term “trin rhywun yn wael” yn ein hatgoffa bod angen monitro atal hefyd ar y rheini sy’n cael eu hamddifadu o’u rhyddid mewn lleoliadau eraill fel cyfleusterau iechyd meddwl neu ofal cymdeithasol.

## Rôl a Phwrpas Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU

Prif swyddogaeth y Mecanwaith yw atal artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol a diraddiol y rheini sy’n cael eu hamddifadu o’u rhyddid, drwy ymweliadau atal rheolaidd â manau lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o’u rhyddid. Mae OPCAT yn cydnabod bod lleoliadau caeedig yn creu risg gynhenid uwch o drin pobl yn wael oherwydd dibyniaeth y rhai sy’n cael eu cadw dan glo ar awdurdodau’r wladwriaeth i gael mynediad at hanfodion bob dydd. Felly, mae’r cytuniad yn mynnu y dylai ymdrechion i ddileu artaith ganolbwyntio’n bennaf ar atal. Yn hytrach nag ymchwilio i weld a yw ymarfer neu amgylchedd yn gyfystyr ag artaith, mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn creu presenoldeb rheolaidd sy’n lleihau ffactorau risg sy’n gallu gwneud amgylchedd cythryblus neu unrhyw weithred o driniaeth neu gosb greulon, annynol a diraddiol yn fwy tebygol. Yn ogystal ag argymhellion a wneir yn uniongyrchol i garchardai, ysbytai diogel neu ganolfannau dalfa’r heddlu, er enghraifft, mae’r Mecanwaith yn llunio adroddiadau cyhoeddus, yn dadansoddi canfyddiadau i ddatblygu argymhellion a pheynnau hyfforddi pwrpasol, yn cyfrannu at graffu deddfwriaethol i wella fframweithiau i amddiffyn pobl sy’n cael eu cadw’n gaeth, ac yn rhoi tystiolaeth i gyrff cytuniadau a gweithdrefnau arbennig y Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop.

## Erthygl 19 OPCAT

Mae’r adroddiad blynyddol hwn wedi’i strwythuro o amgylch y mandad a amlinellir yn erthygl 19 OPCAT, gan roi trosolwg o’r canlynol:

1. Ymweliadau corff cyfansoddol Mecanwaith Atal Cenedlaethol â manau cadw a’u canfyddiadau (19a)
2. Argymhellion a wnaed i awdurdodau perthnasol gan gyrff cyfansoddol a thim canolog Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU (19b)
3. Cynigion a sylwadau ynghylch deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli neu ddeddfwriaeth ddrafft (19c)

# Ymweliadau gan gyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol



## Cyflwyniad

### Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith, Erthygl 19 (a)

#### Caiff y mecanweithiau atal cenedlaethol y pŵer canlynol o leiaf:

- (a) Archwilio'n rheolaidd y driniaeth a roddir i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn mannau cadw fe y'i diffinnir yn erthygl 4, gyda golwg ar gryfhau eu hamddiffyniad rhag artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall, os yw hynny'n bosibl

Mae gyrff cyfansoddol y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol yn cynnal ymweliadau, yn ddirybudd yn bennaf, â'r mannau cadw a nodir yn yr adran hon. I rai sefydliadau, fel yr arolygiaethau carchardai, dyma yw pwrpas craidd eu gwaith. I eraill, fel rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, mae ymweliadau'n cyd-fynd â'u swyddogaethau eraill ac yn eu cefnogi. Mae gyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn cydweithio, gan rannu arbenigedd i sicrhau bod craffu cadarn yn digwydd ar leoliadau. Er enghraifft, mae arolygiaethau gofal iechyd yn ymuno ag arolygwyr carchardai a'r heddlu, gan arwain at ddarlun cyfannol o sefydliad.

Nodir llawer o faterion gan arolygwyr, monitoriaid ac ymwelwyr yn ystod y dros 50,000 o ymweliadau unigol ar y safle a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y materion hynny sy'n ymgysylltu fwyaf â rhwymedigaethau'r DU o dan OPCAT a nodwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Daw'r wybodaeth yn yr adran hon, oni chyfeirir ati'n benodol, o adroddiadau corff Mecanwaith Atal Cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn adrodd, ac o gofnodion cyfarfodydd y Mecanwaith ac ymgynghoriadau llafar ac ysgrifenedig gyda staff sefydliad y Mecanwaith.

Ochr yn ochr â'r arsylwadau hyn ceir nifer o enghreifftiau o arferion da. Er enghraifft, er bod carchardai ledled y DU yn ei chael hi'n anodd delio â phoblogaethau dros eu capasiti gweithredu, nododd archwiliadau ar y cyd Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ag Arolygiaeth Carchardai EF ac Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd Carchar Menywod Hydebank Wood a Choleg Diogel Hydebank Wood fod y carchar wedi ymateb yn dda i'r cynnydd yn y boblogaeth remánd ac wedi gwneud yn siŵr bod carcharorion yn cael yr un cyfleoedd â charcharorion a ddedfrydwyd mewn addysg, hyfforddiant a gwaith. Er gwaethaf poblogaeth gynyddol o fenywod ag anghenion mwy cymhleth, roedd Hydebank Wood yn gweithredu'n llawer mwy llwyddiannus na'r rhan fwyaf o garchardai tebyg a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr, yn dilyn rhaglen dreigl o adnewyddu a nodi rhagor o waith gwella.<sup>2</sup>

Yn nalfar heddlu, nododd cynlluniau ymweld â'r ddalfa mewn un ardal yng Nghymru a Lloegr ostyngiadau sylweddol yn y defnydd o ddillad gwrth-rwygo, mater allweddol a oedd yn peri pryder yn Adroddiad Blynyddol Mecanwaith Atal Cenedlaethol 2023-24. Soniodd sawl maes hefyd am arferion da lle'r oedd staff yn cynnig cymorth ychwanegol i fenywod a oedd yn profi symptomau'r menopos neu'r perimenopos, sef ffocws canllawiau'r Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol (ICVA) a Mecanwaith Atal Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.<sup>3</sup>

Mewn Cartrefi Diogel i Blant, mae Ofsted yn adrodd am ddarpariaeth addysg ac iechyd dda i blant ar y cyfan, gyda gwelliannau mewn dysgu plant ac iechyd meddyliol, emosiynol a chorfforol o ganlyniad. Mae model sy'n ystyriol o drawma o'r enw SECURE STAIRS, a gomisiynwyd gan GIG Lloegr, yn cynnig dull cydweithredol cyson sy'n seiliedig ar drawma o ddiwallu anghenion plant. Mae'r fframwaith yn cael ei roi ar waith yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill, ac mae gan Ysgol Ddiogel Oasis Restore fersiwn bwrpasol o'r Fframwaith

2 [Adroddiad ar Arolygiad dirybudd o Garchar Menywod Hydebank Wood - Tachwedd 2024 - Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon](#)

3 [Diweddariad chwarterol y Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol i randdeiliaid - Ch4 2024/2025 - Gymdeithas Ymweliadau â'r Ddalfa Annibynnol](#)


ar gyfer Gofal Integredig a elwir yn Fframwaith RESTORE. Mae SECURE STAIRS hefyd yn cael ei weithredu yn y Sefydliadau Troseddwy Ifanc sy'n dal pobl ifanc dan 18 oed. Mae hyn wedi arwain at fanteision amlwg i blant ac wedi cynyddu sgiliau'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae hefyd yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad da i staff sy'n gweithio gyda phlant sydd ag ymddygiad heriol iawn ac anghenion cymhleth.

Mae'r rhain a llawer o enghreifftiau eraill yn dangos gwaith caled, ymroddiad a sgiliau miloedd o staff mewn lleoliadau cadw amrywiol ledled y DU. Fodd bynnag, mae adroddiadau o'r flwyddyn yn dangos yr heriau y mae'r staff hynny'n eu hwynebu, a'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar y rheini sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'n amhosibl cofnodi pob enghraifft o arfer da mewn un adroddiad, yn union fel y mae'n anymarferol rhestru pob pryder sydd gan bob corff Mecanwaith Atal Cenedlaethol. Felly, mae'r crynodebau canlynol yn cynnwys y materion sydd fwyaf perthnasol i erthygl 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), gwahardd arteithio a thriniaeth


neu gosb greulon, annynol a diraddiol. Mae tri maes allweddol yn codi pryderon ynghylch achosion o dorri erthygl 3:

- Amodau sy'n gwaethygu mewn carchardai gorlawn sy'n dirywio'n ffisegol, lle mae rhai carcharorion yn dal i gael eu cadw am gyfnod amhenodol o dan ddedfrydau diogelu'r cyhoedd, heb lwybr amlwg i symud ymlaen.
- Lleoliadau cadw mewnfudwyr sy'n mynd yn fwy a mwy gorlawn a threisgar, lle gellir cadw unigolion am gyfnod amhenodol hefyd ac maent yn cael eu cadw fwyfwy am gyfnodau sylweddol hirach, weithiau er gwaethaf ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed.
- Sefydliadoli pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig mewn ysbytai, lle nad yw amddifadu parhaus o ryddid yn cyfrannu at ofal therapiwtig. Mae perygl y bydd diwyllianau caeedig mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn normaleiddio triniaeth wael.

### Nifer yr arolygiadau a'r ymweliadau monitro yn fras rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025



## Carchardai



Argraffiadau o'r carchardai yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 146.

Ni welwyd cam-drin bwriadol wrth fonitro ac arolygu carchardai yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, mae'r argyfwng capasiti a'r anawsterau dilynol wedi arwain at arferion a normau sy'n peri pryder mawr ac sy'n torri cyfraith ryngwladol. Yn benodol, mae'r defnydd o ddedfrydau amhenodol, a'r anallu cynyddol i symud ymlaen drwy ddedfryd tuag at gael eu rhyddhau, wedi cael sylw rhyngwladol am fod yn annynol. Mae gorboblogi a gorlenwi carchardai yn atal llywodraethau rhag cyflawni rhwymedigaethau hawliau dynol yn ddigonol i ddarparu triniaeth ac amodau yn y ddalfa sy'n parchu urddas dynol cynhenid carcharorion.


Yn ôl Llys Hawliau Dynol Ewrop, gall achosion o dorri erthygl 3 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (gwahardd triniaeth neu gosb annynol neu ddiraddiol) godi nid yn unig drwy weithredoedd cadarnhaol o drin yn wael gan awdurdodau'r Wladwriaeth dros garcharorion, ond hefyd drwy osod amodau cadw diraddiol, neu drwy ddiffyg gweithredu yn wyneb honiadau o drin rhywun yn wael. Er enghraifft, mae sefyllfa carcharorion sy'n cael eu cadw mewn cyfleusterau carchar gorlawn sydd wedi mynd â'u pen iddynt, heb ddigon o le byw a dim digon o breifatrwydd, wedi cael ei hystyried yn groes i erthygl 3, er gwaethaf y ffaith nad oedd awdurdodau **wedi bwriadu gwneud hynny** i sarhau'r carcharorion. Mae ynysu cymdeithasol, diffyg gweithgarwch ystyrion, a gwahanu parhaus sy'n gyfystyr â charcharu unigol yn cyfrannu at driniaeth annynol a diraddiol, er gwaethaf ymdrechion staff i ddarparu ar gyfer poblogaeth gynyddol gymhleth sydd ag anghenion aciwt.

## Argyfwng capasiti

### Capasiti carchardai yng Ngogledd Iwerddon


Cyfanswm y carcharorion: 1,964

- Carcharorion yn rhannu celloedd: 28.9%
- Carcharorion mewn llety un gell: 71.1%



### Capasiti carchardai yng Nghymru a Lloegr

- Carcharorion mewn amodau gorlaw'n\*: 25%
- Carcharorion mewn llety un gell: 75%




\*mesurir hyn yn ôl nifer y carcharorion ar ddiwrnod olaf y mis mewn cell lle mae nifer y preswylwyr yn fwy na llety arferol sylfaenol y gell.

### Capasiti carchardai yn yr Alban

Ym mis Mawrth 2025

- Carcharorion yn rhannu celloedd: 36.5%
- Carcharorion mewn llety un gell: 63.5%



Capasiti carchardai ar draws awdurdodaethau'r DU yn y flwyddyn 2024-2025, yn ôl: Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon 2024 i 2025, Crynodeb Blynyddol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF 2024 i 2025, Carchardai Gwasanaeth Carchardai'r Alban yn ôl Rhifau Chwarter 4 (2025). Mae safonau'r Pwyllgor Ewrop ar Atal Arteithio, y mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn eu cefnogi, yn gofyn am o leiaf 4 metr sgwâr i bob carcharor heb gynnwys toiled wedi'i wahanu gan bared. Mae adroddiadau ar gapasiti gwasanaethau carchardai ledled y DU yn defnyddio safonau cymysg, felly nid yw'n ddibynadwy i roi darlun cenedlaethol o orlenwi.

diffyg staff sydd â chymwysterau priodol i ddelio â nifer y carcharorion a'u hanghenion iechyd meddwl cymhleth iawn, amodau corfforol sy'n dirywio mewn carchardai, a threfn sy'n rhy gyfyngedig. Mae arolygwyr a monitoriaid wedi adrodd am ystad sy'n dadfeilio, gydag oedi cyn adnewyddu yn arwain at amodau byw annerbyniol mewn gormod o garchardai. Cyflwynwyd mesurau dros y flwyddyn ddiwethaf i reoli capasiti carchardai, ac mewn rhai carchardai mae'r rhain wedi caniatáu cwblhau gwaith cynnal a chadw hwyr wrth i boblogaethau ostwng dros dro. Fodd bynnag, ni all adeiladu ac ehangu carchardai ddelio â'r twf yn y boblogaeth ac nid yw'n mynd yn ddigon pell i atal effeithiau negyddol hirdymor ymestyn gwasanaethau yn hytrach na'u newid.

Ers ei ffurfio yn 2009, mae adroddiadau Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn cyfeirio at bryderon ynghylch gorlenwi mewn carchardai,

Mae'r effeithiau hyn yn peryglu hawl pobl i beidio â chael eu trin yn wael, ond hefyd hawliau cydrannol i breifatrwydd, i safon ddigonol o iechyd ac urddas cynhenid pobl.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd pwysau poblogaeth yn golygu na ellid yn aml atal celloedd a chyfleusterau eraill rhag cael eu defnyddio ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol, gan atal gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar adeiladau ac achosi problemau gydag awyru, lloriau wedi torri, ffenestri anniogel, cawodydd nad oedd modd eu defnyddio, llifogydd a gweld llygod mawr a chwilod duon yn aml. Yn yr Alban, mae gan nifer o garchardai broblemau seilwaith sylweddol ers tro byd ac maent mewn cyflwr mor wael fel nad ydynt, er eu bod yn parhau i letya carcharorion, yn darparu amodau sy'n dderbyniol yn yr unfedganrif ar hugain. Cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EF bedwar hysbysiad brys dros flwyddyn adrodd 2024-25, gan gynnwys i Garchar EF Winchester (Hydref 2024) a Charchar EF Rochester (Awst 2024), gan nodi llety adfeiliedig mewn rhai o'r amodau gwaethaf a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mynegodd yr arolygiaeth bryderon am amodau byw mewn 24 o'r 38 carchar i oedolion a arolygwyd dros y flwyddyn.<sup>4</sup> Gall rhannu celloedd sy'n gyfyng erydu llesiant meddyliol carcharorion, yn enwedig pan oedd llawer yn treulio hyd at 23 awr y dydd yn eu celloedd. Roedd amodau'n tueddu i fod yn well mewn carchardai i fenywod ac mewn carchardai mwy modern i ddynion fel Carchar EF Five Wells (lle'r oedd y celloedd yn cynnwys cawod.)

Adroddodd Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer yr Alban am arolygiad yng Ngharchar EF Barlinnie fod seilwaith y carchar yn rhwystr i ddiogelwch a safonau byw derbyniol, ac er gwaethaf adrodd am ddiffyg trwsio yn 2019, bod un uned wedi aros mewn cyflwr truenus o wael.<sup>5</sup> Roedd poblogaeth Barlinnie dros 30% yn uwch na'i gapasiti dylunio, ac roedd bron i ddwy ran o dair o garcharorion yn rhannu celloedd unigol. Roedd

y gorboblogi hwn yn golygu nad oedd y carchar yn gallu cynnig cawodydd bob dydd, ac roedd gwasanaethau a pherthnasoedd dan straen. Yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar EF Grampian (Mehefin 2024), bu'n rhaid i rai carcharorion gysgu dros dro ar fatresi ar y llawr, sy'n gwbl annerbyniol. Er gwaethaf pryderon hirsefydlog a chyson ynghylch gorlenwi carchardai yn cael eu codi gan y Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU, Pwyllgorau'r Cenhedloedd Unedig a Phwyllgor Ewrop ar Atal Arteithio, nid oedd unrhyw gynllun clir i fynd i'r afael â gorlenwi carchardai wedi cael ei ddatblygu gan swyddogion dyletswyddau.

Mae poblogaeth gynyddol mewn carchardai hefyd yn bryder yng Ngogledd Iwerddon, er bod y boblogaeth yng Ngholeg Diogel Hydebank Wood ar gyfer dynion ifanc sy'n oedolion wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf ac roedd gan garcharorion i gyd gelloedd unigol. Ym Maghaberry, ailagorwyd llety hŷn yr ystyriwyd gynt ei fod yn anaddas er mwyn dal i fyny â'r nifer cynyddol o draddodebau drwy fesurau brys i gynyddu'r lleoedd sydd ar gael. Er gwaethaf y sylw ym mis Mawrth 2025 bod llawer o'r ystad carchardai yn nesáu at ddiwedd ei hoes economaidd ddefnyddiol, gyda'r seilwaith sy'n heneiddio, yn enwedig yng ngharchar Magilligan, gan adael carcharorion mewn cytiau gyda "waliau, toeau a lloriau sy'n dirywio ynghyd â systemau plymio, trydanol a gwresogi sy'n heneiddio", mae'r Adran Gyfiawnder yn parhau i anfon carcharorion i'r amodau hyn.<sup>6</sup>

Yng Ngharchar Menywod Hydebank Wood, roedd y cynnydd yn y boblogaeth wedi cynyddu'r galw am ofal iechyd, a chollwyd gormod o apwyntiadau. Fodd bynnag, nodwyd rhwystrau rhag mynd i apwyntiadau ac roedd gwaith i wella mynediad wedi dechrau, gyda rhywfaint o welliant yn y niferoedd a oedd yn mynychu. Nodwyd bod amodau byw yn rhagorol, gyda phob menyw yn cael ei hystafell ei hun.

4 [Adroddiad Blynyddol 2024-25 – Gorffennaf 2025 Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr](#)

5 [Adroddiad ar Arolygiad Llawn Carchar EF Barlinnie - 18-22 Tachwedd 2024 - Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer yr Alban](#)

6 [Ymweliadau hir â'r gegin a'r cafffi newydd yng Ngharchar Magilligan - mis Mawrth 2025 - yr Adran Gyfiawnder](#)

## Rhwystrau rhag symud ymlaen

Mae rheolau'r carchar yn glir na ddylai amodau a thriniaeth yn y carchar waethygu natur gosbol carchar.<sup>7</sup> Elfen greiddiol o adsefydlu yw trefn weithredol sy'n rhoi cyfle i ddatblygu diddordebau, sgiliau ac addysg. Fodd bynnag, mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn poeni nad oes digon o staff cymwys i gyflawni'r drefn bwrpasol ac unigol hon ar gyfer digon o garcharorion, yn enwedig ar gyfer poblogaeth carchardai sydd ag anghenion cynyddol gymhleth.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd nifer y carcharorion wedi peryglu'r gwaith paratoi ar gyfer rhyddhau a'r gefnogaeth i garcharorion sy'n gadael y ddalfa gyda staff yn cael eu tynnu o ddyletswyddau arferol, ac nid oedd Unedau Datblygu Carcharorion yn gallu ymdopi â'r sefyllfa. Roedd perfformiad Unedau Datblygu Carcharorion yn Maghaberry a Magilligan wedi dirywio, gyda phroblemau parhaus o ran staffio a chyflawni rhaglenni. Er bod llawer o waith yn canolbwyntio ar droseddau wedi'i wneud yng Ngharchar Menywod a Choleg Diogel Hydebank Wood, nid oedd seicolegydd hyfforddedig ar gael i gynnal rhaglenni achrededig.

I garcharorion sydd â dedfryd oes, dedfryd amhenodol o garchar (ICS) neu ddedfryd estynedig o garchar (ECS), mae'r posibilrwydd o gael eu rhyddhau yn darged sy'n datblygu drwy'r amser. Ar ôl cyfnod penodol o wasanaeth, mae carcharorion yn cael eu cyfeirio at gomisiynwyr parôl i ystyried a ydynt yn addas i gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn mae materion staffio a mynediad yn golygu mai anaml y maent wedi gallu cael gafael ar raglenni sydd eu hangen i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol, a dangos eu bod wedi mynd i'r afael ag ef. Gall rhwystredigaethau cynyddol am y broses hon wedyn arwain at amgylchedd carchar mwy ansefydlog a mwy o ddyfarniadau, sydd hefyd yn effeithio ar gymhwysedd ar gyfer rhyddhau. Canfu arolygiad Cyfiawnder Troseddol ym mis Hydref 2024 o lywodraethiant a gweithrediad Comisiynwyr Parôl fod 28% o'r

boblogaeth a ryddhawyd wedyn yn cael ei galw'n ôl, gan ddisgrifio problemau sylweddol o ran cyflawni proses yr Unedau Datblygu Carcharorion, sy'n golygu bod Comisiynwyr yn ystyried cyfran lawer is ar gyfer rhyddhau nag mewn awdurdodaethau eraill.

Yn yr Alban, anaml iawn yr oedd trefniadau carchardai'n gyson ac yn rhagweladwy ac roedd angen gwneud mwy i hyrwyddo llesiant ac adsefydlu. Nid oes gan garcharorion fynediad at fawr ddim gweithgareddau ystyrlon na phwrpasol, neu ddim gweithgareddau o gwbl - maent wedi'u cloi yn eu celloedd (sy'n aml yn orlawn) am y rhan fwyaf o'r dydd. Er bod y system ddilyniant wedi'i chynllunio i alluogi carcharorion i symud ymlaen i amodau mwy agored, mae pwysau'r ystad carchardai sydd wedi'i gorboblogi wedi gadael staff heb ddigon o hyfforddiant ar y system ddilyniant a diffyg amser i gefnogi gweithgareddau dilyniant carcharorion. Mae hyn, ynghyd ag oedi o ran mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad troseddol, wedi arwain at danddefnyddio'r Ystad Agored ers tro byd, gyda 100-120 o leoedd gwag i garcharorion yn 2024-25 er gwaethaf gorboblogi cronig yn yr ystâd carchardai. Roedd hyn hefyd yn broblem yn ystad agored Cymru a Lloegr; roedd rhai carchardai agored yn dal yn llawn, ac roedd gan rai lawer o lefydd gwag dros y flwyddyn, ac roedd rhai eraill wedi gweld trosiant uchel. Roedd Dedfrydau Penodol Safonol (SDS 40), cynllun rhyddhau cynnar i leihau rhai dedfrydau penodol safonol o 50% i 40% o'r ddedfryd wreiddiol, yn creu lleoedd yn bennaf yn yr ystad agored a charchardai hyfforddi categori C, gyda rhai Byrddau Monitro Annibynnol (IMBs) yn poeni am effaith ansefydlogi bosibl nifer fawr o newydd-ddyfodiaid.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd pwysau ar y boblogaeth yn tanseilio cyfleoedd carcharorion i symud ymlaen ac ailsefydlu, gyda diffyg ymyriadau achrededig er gwaethaf disgwyliadau Mecanwaith Atal Cenedlaethol y bydd pob carcharor yn cael rhaglenni achrededig amserol.

7 Er enghraifft, y Rheolau Sylfaenol Safonol ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela) a Rheolau Carchardai Ewrop.



Roedd carcharorion yn cael trafferth cael gafael ar raglenni ymddygiad troseddol, a fydd i nifer sylweddol, yn cael effaith uniongyrchol ar yr amser y byddant yn ei dreulio yn y carchar, gan ei fod yn cael ei ystyried yn allweddol i ddangos llai o risg.

Ledled y DU, mae diffyg mynediad at gyrsiau a rhaglenni yn cael ei waethygu gan yr angen mawr am gymorth unigol a phrinder seicolegwyr sydd â chymwysterau digonol. Mae dedfrydau amhenodol yn parhau i weithredu ym mhob awdurdodaeth. Yng Nghymru a Lloegr, cafodd dedfrydau IPP eu tynnu o opsiynau barnwrol yn 2012, ond nid oedd y newid hwn yn ôl-weithredol, gan adael 1,180 o garcharorion yn dal i fwrw dedfrydau Carcharu er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP). Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae Gorchmynion am Gyfyngiadau Gydol Oes (OLRs) a Dedfrydau Carcharu Amhenodol (ICSS) yn dal ar gael i lysoedd eu gorfodi ar unigolion. Mae pryderon yn yr Alban yn ymwneud â defnyddio OLRs i droseddau ar wahân i lofruddiaeth.

Mae gan lawer o'r bobl sy'n destun IPP lefelau uchel o her seicolegol, gan gynnwys niwrowahaniaeth, a thrawma cymhleth yn ystod plentyndod sydd angen sylw arbenigol.<sup>8</sup> Ym marn y Mecanwaith Atal Cenedlaethol, mae risgiau tebyg yn berthnasol i unigolion sy'n destun ICS ac OLR.<sup>9</sup> Ar ôl i'r tariff gwreiddiol gael ei dreulio, mae'n gyffredin i garcharorion deimlo mwy o straen oherwydd nad yw hyd y cyfnod cadw parhaus dilynol yn hysbys, ac mae'n anoddach ei fesur neu ei fyrhau drwy'r anhawster o brofi adsefydlu neu ddiogelwch ar gyfer rhyddhau. Yng Ngogledd Iwerddon, mae prinder seicolegwyr

o hyd i gefnogi dilyniant. Mae bod o dan ICS, IPP neu OLR yn lleihau cyfle carcharor i gael mynediad at raglenni adsefydlu ac mae hefyd yn lleihau ei allu i gymryd rhan ynddynt neu i symud ymlaen. Mae hyn yn cael effaith ddofn ar bob carcharor.

Mae diffiniad y Cenhedloedd Unedig o artaith yn egluro nad yw gosod "cosbau cyfreithlon", sef amddifadu o ryddid, yn cael ei ystyried yn artaith. Fodd bynnag, er mwyn bod yn "gyfreithlon" ni all sancsiynau fod yn benagored, yn amhenodol nac yn rhy eithafol i'w pwrpas, ond rhaid iddynt gael eu diffinio'n glir, yn gryno ac yn gymesur.<sup>10</sup> Fel y nodir gan Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae sancsiwn nad yw'n rhoi unrhyw bosibilrwydd o ryddhau byth yn torri gwaharddiad erthygl 3.<sup>11</sup> Mae Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Artaithe a'r Pwyllgor ar Hawliau Dynol wedi mynegi pryder am garcharorion dan ddedfrydau IPP. Mae adolygiad dedfrydu Gauke wedi cynnig model newydd o alw yn ôl ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfrydau penodol safonol, ac mae'n gobeithio y bydd hyn yn gwella gallu'r Bwrdd Parôl i benderfynu a yw carcharorion sy'n bwrw dedfrydau amhenodol yn parhau i beri risg i'r cyhoedd.<sup>12</sup> Er mwyn cydymffurfio ag erthygl 5 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid i ddedfrydau gydol oes fod yn gysylltiedig yn achosol ag euogfarn, a awdurdodir gan gyfraith genedlaethol, barhau dim ond cyhyd ag y bydd yr amodau a oedd yn gofyn am ei hymyrraeth yn parhau, a rhaid bod cyfleoedd ar gyfer adsefydlu, addysg a hyfforddiant i leihau'r amodau neu'r risgiau hyn.<sup>13</sup> Er bod y DU yn darparu ar gyfer y cyfleoedd hynny yn y gyfraith, nid ydynt bob amser yn cael eu cyflawni'n ymarferol.

8 **Dedfrydau IPP: Ymatebion y Llywodraeth a'r Bwrdd Parôl i Drydydd Adroddiad y Pwyllgor - Nawfed Adroddiad Arbennig Sesiwn 2022-23 - Chwefror 2023 - Tŷr Cyffredin - Pwyllgor Cyfiawnder**

9 **Briff Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU - cadw am gyfnod amhenodol - Gorffennaf 2025 - Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU**

10 **Artaithe a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall; Adroddiad y Cofnodwr Arbennig - Mawrth 2020 - Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig - Cyngor Hawliau Dynol**

11 Achos James, Wells a Lee v. y Deyrnas Unedig (Rhifau'r achos. 25119/09, 57715/09 and 57877/09)

12 **Adolygiad Dedfrydu Annibynnol - Adroddiad terfynol a chynigion ar gyfer diwygio - Mai 2025 - Adolygiad Dedfrydu Annibynnol**

13 Johnstone v Eiriolwr Ei Fawrhydi - Mai 1993 - Uchel Lys Cyfiawnder yr Alban

## Ynysu hirdymor

Yn yr Alban, mae gormod o garcharorion yn dal i ddioddef ynysu hirdymor mewn Unedau Gwahanu ac Ailintgreiddio. Er bod y staff yn y rhan fwyaf o'r Unedau'n wybodus ac yn gefnogol i'r rhai yn eu gofal, un pryder i fonitorau carchar annibynnol (IPMs) oedd bod carcharorion yn treulio gormod o amser mewn Unedau, gan godi cwestiynau ynghylch ai carchar yw'r lle iawn i garcharorion â phroblemau iechyd meddwl cymhleth na all y carchar fynd i'r afael â nhw. Mae mwy o garcharorion hefyd yn cael eu cadw ar eu pen eu hunain yn y prif neuaddau oherwydd diffyg lle mewn Unedau, sy'n gwneud y drefn yn fwy cymhleth i'w rheoli.

Yng Nghymru a Lloegr, mae gormod o amser dan glo mewn cell yn dal yn broblem i lawer o garchardai. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu hamser yn yr awyr iach, a chyfleoedd i gael cawod neu bryd poeth. Ochr yn ochr â charcharorion ag anghenion iechyd meddwl yn cael eu cadw am gyfnodau hir (gan gynnwys hyd at 800 diwrnod) mewn Unedau Gofal a Gwahanu, roedd dynion yn aml yn cael eu cloi yn y gell am hyd at 23 awr y dydd, a'r trefniadau ar gael yn rhai gwael. Roedd rhai unedau gwahanu yn "ddigalon", heb fawr o fynediad at drefn ystyrlon na chymorth therapiwtig.<sup>14</sup> Roedd hunan-ynysu carcharorion agored i niwed yn y brif boblogaeth hefyd yn bryder, gan fod diffyg celloedd ar gael mewn unedau carcharorion agored i niwed yn gwneud i lawer deimlo'n anniogel.

Mae menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol yn aml i'w gweld mewn unedau ar eu pen eu hunain mewn lleoliadau anaddas. Er bod yr unedau hyn yn cael eu defnyddio fel dewis olaf ar gyfer diogelwch a gwarchodaeth, mae canfyddiadau ar draws y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn dangos bod menywod ag anghenion iechyd meddwl uchel iawn, sy'n ddifrifol wael ac a ddylai fod yn yr ysbyty, yn cael eu cadw mewn celloedd ar eu pen eu hunain. Mae oedi hir o hyd wrth drosglwyddo i wasanaethau fforensig

cleifion mewnol iechyd meddwl oedolion ac unedau gofal dwys seiciatrig (PICU).

Roedd y lefel uchel o wahanu an-ddisgyblaeth yn broblem aciwt a chenedlaethol, gydag effeithiau dilynol ar hylendid, iechyd ac urddas.

## Iechyd meddwl

Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin iawn mewn carchardai ledled y DU ac yn cael eu gwaethygu gan orlenwi, prinder staff, rhwystrau rhag symud ymlaen, trefn gyfyngedig a/neu ddefnydd eang o gyffuriau. Nid oes gan garchardai'r gofal na'r gefnogaeth briodol ar gyfer anghenion cymhleth fel salwch meddwl difrifol, dementia neu anghenion gofal iechyd meddwl eraill sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae rheolau carchardai a safonau rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol diogelu pob carcharor, y mae'n rhaid iddynt gael mynediad at y gwasanaethau iechyd sydd ar gael yn y wlad heb wahaniaethu ar sail eu sefyllfa gyfreithiol. Ar draws yr ystâd carchardai (ar gyfer dynion a menywod), mae lefelau staffio carchardai isel a threfniadau cyfyngedig yn cyfrannu at iechyd meddwl gwael a risg gynyddol o hunan-niweidio. Cofnododd holl arolygiaethau carchardai a chyrrff monitro bryder mawr am garcharorion â salwch meddwl (dynion a menywod) a oedd yn aros amseroedd annerbyniol o hir i gael eu trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl arbenigol i gleifion mewnol i gael triniaeth o dan y Deddfau Iechyd Meddwl. Yn aml, yr oedd y bobl hyn mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael eu cadw mewn unedau gwahanu neu unedau cleifion mewnol yn y carchar, a oedd yn niweidiol i'w hiechyd. Nid yw carchardai'n amgylchedd priodol na therapiwtig i bobl a ddylai fod yn cael triniaeth feddygol briodol ar gyfer iechyd meddwl.


14 **Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwyd ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol**

Yng Ngogledd Iwerddon, un pryder mawr yw diffyg gwasanaethau anhwylder personoliaeth penodol, neu hyfforddiant i staff ar anhwylderau personoliaeth, mewn carchardai. Mae'r cynnydd wedi bod yn araf o ran cyflawni argymhellion a wnaed yn yr **Adolygiad o Wasanaethau ar gyfer Pobl Agored i Niwed sy'n cael eu cadw yng Ngharchardai Gogledd Iwerddon**. Mae'r dull presennol o ddiogelu ac ymchwilio i gwynion yn annigonol. Nid oes digon o dystiolaeth o weithdrefnau diogelu i amddiffyn pobl sy'n gwneud cwynion, nac o ystyried craffu allanol.

Yn yr Alban, nododd adroddiad cau terfynol Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) ar ei gyhoeddiad yn 2021, sef **Mental Health in Scotland's Prisons 2021: under-served and under-resourced**, fod angen goruchwyliaeth y Comisiwn o hyd ar gyfer ei argymhellion sy'n tynnu sylw at anghenion y rheini sy'n profi iechyd meddwl gwael ac sy'n cael eu symud i Unedau Gwahanu ac Ailintegreiddio. Mae heriau parhaus yn cynnwys trosglwyddo'n brydlon i wasanaeth iechyd meddwl sy'n gallu diwallu anghenion carcharorion, tra bo iechyd meddwl y carcharorion hynny'n dirywio tra byddant yn y carchar. Mae gwaith gan Lywodraeth yr Alban ar ddatblygu Bwrdd Iechyd Meddwl Fforensig ar gyfer yr Alban yn yr arfaeth.

Yn ei hymateb yn 2021 i adroddiad ar ymweliad gan Bwyllgor Ewrop ar Atal Arteithio, cyflwynodd Llywodraeth y DU amserlen 28 diwrnod i gwblhau trosglwyddiadau o garchardai i'r ysbyty ar gyfer carcharorion ag anghenion iechyd meddwl difrifol y mae angen eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, canfu ymchwil pwrpasol gan gyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn 2024 fod yr amserlen 28 diwrnod hon yn cael ei methu'n rhy aml ac yn cael ei chofnodi'n wael ledled y wlad. Manylir ar ymgorffori'r amserlen 28 diwrnod yn y Mesur Iechyd Meddwl, a'r angen am gofnodi effeithiol i hwyluso craffu, o dan **Ddeddfwriaeth bresennol a drafft**.

## Marwolaethau yn y carchar



Nifer y carcharorion a fu farw yn y carchar yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr, yn ôl y canlynol:

1. Ombwdsmon Carcharorion Gogledd Iwerddon
2. Gwasanaeth Carchardai'r Alban
3. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Yn yr Alban, roedd nifer y bobl a fu farw yn y carchar wedi mwy na dyblu rhwng 2015 a 2024 o 24 o farwolaethau yn 2015 i 64 yn 2024, ac roedd y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth yn 6.48%.<sup>15</sup> Mae is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban wedi dilyn gweithredu argymhellion yr **Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau yn Nalfa'r Heddlu** yn agos, gan ystyried rhwymedigaethau Llywodraeth yr Alban i

15 Mae ystadegau gan Wasanaeth Carchardai'r Alban yn dangos mai 7,622 oedd poblogaeth y carchardai ar gyfartaledd yn 2015, ac mai 8,116 oedd poblogaeth y carchardai ar gyfartaledd yn 2024, cynnydd o 6.48%; **Poblogaeth Carchardai - Data, Ymchwil a Thystiolaeth - Gwasanaeth Carchardai'r Alban**

ddiogelu'r hawl i fywyd.<sup>16</sup> O'r 20 argymhelliad a chwe phwynt cynghorol yr adolygiad, pob un wedi'u derbyn, mae 15 wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, bu farw mwy o unigolion yng ngharchardai'r Alban yn ystod tri mis olaf 2024 nag erioed o'r blaen. Y tri phrif achos marwolaeth a gofnodwyd yw achosion meddygol, hunanladdiad, a defnyddio sylweddau, gyda nifer y rhai sy'n marw o ddefnyddio sylweddau ac achosion meddygol yn benodol yn cynyddu.

Yng Nghymru a Lloegr, bu 399 o farwolaethau yn nalfa'r heddlu yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Mawrth 2025, cynnydd o 37% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, gyda 91 o ddynion a menywod, yn anffodus, yn marw drwy hunanladdiad.<sup>17</sup> Canfu'r Byrddau Monitro Annibynnol, er gwaethaf mwy o graffu mewn carchardai a oedd yn cael eu cydnabod fel "safleoedd clwstwr" ar gyfer marwolaethau a achoswyd gan yr unigolion eu hunain, nad oedd rhagor o farwolaethau'n cael eu hatal, a thynnodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi sylw hefyd at ddysgu annigonol ar draws yr ystad o argymhellion blaenorol yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf. Nid oedd y broses Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm, i gefnogi'r rheini sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad, yn addas i'r diben ar rai safleoedd, gydag arsylwadau, adolygiadau neu nodiadau anghyflawn, a rhai gwiriadau goruchwylio absennol.

Yn dilyn ymarfer casglu gwybodaeth gan Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon, nodwyd bylchau allweddol yn y gwaith rhagweithiol o rannu gwybodaeth gan sefydliadau gydag arolygiaethau a chyrrff monitro ar farwolaethau a digwyddiadau niweidiol difrifol yn y ddalfa. Mae rhai cytundebau rhannu data wrthi'n cael eu datblygu, tra bo rhai bylchau allweddol yn dal i fodoli. Bydd llenwi'r bylchau hyn yn gwella gwybodaeth yn Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon, gan ganiatáu argymhellion cyfunol, monitro gweithredu argymhellion yn fwy uniongyrchol a nodi unrhyw faterion systemig difrifol.

## Defnyddio grym

Rhaid i rym fod yn gymesur â'r bygythiad a achosir ac â'r nod y'i bwriadwyd ynddo. Er mwyn sicrhau bod y defnydd o rym yn cael ei oruchwylio'n ddigonol, gall staff ddefnyddio camerâu corff i gofnodi digwyddiadau, a dylid cynnal archwiliad meddygol o'r carcharor ar ôl unrhyw achos o rym, yn ogystal ag ôl-drafodaeth gyda'r staff dan sylw. Mae mwy o drais mewn carchardai, gyda mwy o risg o arfau'n mynd i mewn i garchardai drwy ddronau ac ymosodiadau diweddar ar swyddogion carchardai, yn peryglu diogelwch carcharorion a swyddogion ac maent wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr achosion o ddefnyddio grym ers diwedd 2022-23. Mae ymosodiadau yn erbyn carcharorion eraill ac yn erbyn staff carchardai wedi cynyddu ers 2020-21, sydd bron yn cyfateb i'r niferoedd uchaf a gofnodwyd yn 2019 cyn y pandemig yn dilyn cynnydd cyson ers 2012-13.<sup>18</sup>

16 [Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau yn y Carchar - Tachwedd 2021 - Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer yr Alban, Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban \(SHRC\), Families Outside](#)

17 [Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, Cymru a Lloegr: Marwolaethau yn y Ddalfa hyd at fis Mawrth 2025 Ymosodiadau a Hunan-niweidio hyd at fis Rhagfyr 2024 - GOV.UK](#)

18 [Diogelwch a threfn - Data carchardai - Data Cyfiawnder](#)

Eleni, roedd faint o rym a ddefnyddiwyd yn erbyn carcharorion wedi cynyddu mewn dros 40% o garchardai i ddynion a arolygwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF, oherwydd lefelau cynyddol o drais. Nid oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio PAVA (Pelargonic Acid Vanillylamide, sef chwistrell analluogi synthetig) ar sawl achlysur, yn ôl Arolygiaeth Carchardai EF, ac roedd yn amlach nag yn 2023-24. Roedd oedolion ifanc yn fwy tebygol o fod yn destun defnyddio grym yn ystad y dynion ac roedd y gwaith i'w cefnogi yn gyfyngedig. Roedd carcharorion niwrowahanol hefyd yn cael eu gorgynrychioli o ran defnyddio digwyddiadau grym, ac mewn rhai carchardai roedd anghymesureddau hiliol amlwg oedd yn peri pryder.<sup>19</sup> Roedd menywod mewn argyfwng yn wynebu dibyniaeth bryderus ar ddefnyddio grym corfforol, heb reswm da mewn rhai achosion, gan greu dull cosbol o ymdrin â mater iechyd meddwl. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn poeni am ba mor aml mae staff yn defnyddio grym i atal menywod rhag hunan-niweidio, gyda defnydd isel o gamerâu corff i ganiatáu monitro, dysgu a gwella ymarfer yn ddigonol.

Nid oedd goruchwylio'r defnydd o rym yn ddigonol i sicrhau bod pob defnydd o rym yn gyfiawn ac yn gymesur, gan fod cyfran fawr o ddigwyddiadau heb eu cofnodi o hyd, neu'r recordiad yn dechrau'n rhy hwyr i ddangos a oedd grym yn angenrheidiol ac yn rhesymol (er bod y defnydd o gamerâu wedi gwella dros y flwyddyn).

## Effaith cyffuriau

Yng Nghymru a Lloegr, adroddodd Arolygiaeth Carchardai EF am effaith ansefydlogi nifer llethol o gyffuriau.<sup>20</sup> Roedd y galw a'r argaeledd uchel - sy'n cael ei fwydo gan ddiffyg gweithgarwch pwrpasol ac oriau hir yn y gell - wedi arwain at gynnydd mewn trais dros y flwyddyn, gan erydu'r berthynas rhwng carcharorion a staff a pheryglu potensial trefniadau adsefydlu. Dywedodd 11% o ddynion a 19% o fenywod a holwyd eu bod wedi datblygu problem gyda chyffuriau, alcohol neu feddyginiaeth wedi'i dargyfeirio ar ôl cyrraedd y carchar, gyda phroblemau cyffuriau ac alcohol yn effeithio ar gyfran uwch o fenywod na dynion.

Yng Ngogledd Iwerddon, mynegodd Byrddau Monitro Annibynnol yng Ngharchar Maghaberry bryder ynghylch nifer uchel o garcharorion yn parhau i fethu sganiau pelydr-X o'r corff. Er bod sganiau positif wedi gostwng ers cyflwyno'r sganwyr, mae nifer pryderus o garcharorion yn dal i adael am ymweliadau â'r ysbyty yng nghwmni rhywun ac yn methu sgan ar ôl dychwelyd. Cododd y Byrddau Monitro Annibynnol y mater hwn gyda Gwasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon, a ysgogodd adroddiad annibynnol, nad yw wedi bod ar gael eto i gyrff y Mecanwaith Atal Cenedlaethol.

Roedd nifer y carcharorion y canfuwyd eu bod dan ddylanwad cyffuriau a nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn parhau i fod yn bryder yn yr Alban hefyd.

19 [Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwr ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol](#)

20 [Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gorffennaf 2025 Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr](#)

## Cadw mewnfudwyr



**Argraffiadau o'r lleoliadau cadw mewnfudwyr yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 13**

Mae mwy o bobl yn cael eu cadw at ddibenion mewnfudo, ac er gwaethaf rhai gwelliannau cadarnhaol, roedd amodau mewn rhai canolfannau cadw eleni ymysg y gwaethaf a welwyd gan arolygwyr yn y lleoliadau hyn. Mae'r boblogaeth wedi cynyddu ac mae pobl yn dal i gael eu cadw am gyfnod amhenodol, rhai am dros flwyddyn. Dim ond

tua thraean o'r rhai a gadwyd mewn safleoedd a arolygwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF a gafodd eu hallgludo, a rhyddhawyd dros hanner ohonynt.<sup>21</sup> Nid yw cadw at ddiben gweinyddol, i brosesu pobl sy'n cyrraedd neu os oes angen i effeithio ar allgludo, yn gosb. Pwrpas canolfannau cadw yw cynnig llety diogel ond dyngarol, mewn trefn hamddenol gyda chymaint o ryddid i symud a chymdeithasu â phosibl.<sup>22</sup> Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae cadw mewnfudwyr yn y DU yn debyg i amgylcheddau cosbi.

## Cadw am gyfnod amhenodol

Y DU yw'r unig wlad yn Ewrop nad oes ganddi derfyn amser statudol ar gadw cyn allgludo, ac mae Pwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig wedi argymhell ei fod yn cyflwyno un dro ar ôl tro.<sup>23</sup> Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, am y cyfnod byrraf posibl, y dylid defnyddio cadw cyn allgludo, ac fel cam olaf pan fydd hynny'n angenrheidiol yn yr achos unigol ac yn gymesur â'r dibenion a geisir; rhaid cael posibilrwydd rhesymol o allgludo. Mae cadw'n cael ei ystyried yn fympwyol os yw'n cael ei gymhwyso'n awtomatig i gategori eang o bobl neu dim ond oherwydd nad yw eu presenoldeb mewn gwlad wedi'i ddogfennu.<sup>24</sup> Fodd bynnag, er gwaethaf mesurau diogelu i wneud penderfyniadau cadw fel y Paneli Hwyluso Achosion a Phorthgeidwaid Cadw, mae diffyg terfyn amser statudol ar gyfer cadw yn golygu ei bod yn bosibl i'r rhai dan glo dreulio blynyddoedd yn y ddalfa, heb wybod am ba hyd y byddant yno.<sup>25</sup> Mae hyn yn cael effeithiau negyddol sylweddol ar iechyd a llesiant, gan gyfrannu at drais, iselder a hunan-niweidio. Fis Mawrth 2025, roedd 1,102 o bobl dan glo wedi treulio mwy na 28 diwrnod yn y

21 Adroddiad Blynyddol 2024-25 – Gorffennaf 2025 Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr

22 **Rheolau Canolfannau Cadw 2001**

23 Y Pwyllgor Hawliau Dynol, Sylwadau i gloi ar wythfed adroddiad cyfnodol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, CCPR/C/GBR/CO/8. 42-43

24 HRC, Sylw Cyffredinol Rhif 35: Rhyddid a Diogelwch Person, CCPR/C/GC/35, (Rhagfyr 16, 2014), para. 18; WGAD, Myfyrio Diwygiedig Rhif 5 ar amddifadu rhyddid mudwyr, para. 19; WGAD, Myfyrio Diwygiedig Rhif 5 ar amddifadu o ryddid mudwyr, para 12 ac 14; SRHRM, Cadw mudwyr mewn sefyllfa afreolaidd, para. 68

25 **Cyfnod cadw; y Deyrnas Unedig – Ebrill 2025 - Cronfa ddata Gwybodaeth Lloches - Cyngor Ewrop ar Ffoduriaid ac Alltudion** D.S y cyfnodau cadw hiraf fel arfer yw pan fo pobl yn aros am allgludiad ar ôl bwrw dedfryd droseddol.

ddalffa.<sup>26</sup> 28 diwrnod yw'r terfyn a argymhellir gan Bwyllgor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, er mwyn osgoi straen a phryder a gwaethygu cyflyrau iechyd meddwl.<sup>27</sup> O'r 1,102 hynny, roedd 150 wedi cael eu cadw am bedwar i chwe mis, 105 am fwy na chwe mis.

## Ystad gadw sy'n fwyfwy anniogel i ddynion

Cafodd mwy o droseddwy'r o dramor a oedd wedi treulio amser dan glo eu trosglwyddo o garchardai i ganolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr dan Operation Safeguard, lle derbyniodd y Swyddfa Gartref y rhai a gafwyd yn euog o droseddau treisgar neu rywiol, yn ogystal â phobl â phroffil risg uwch ar y cyfan.<sup>28</sup> Roedd deiliadaeth ddwbl mewn ystafelloedd a oedd yn arfer cael eu defnyddio gan un person wedi cynyddu. Roedd prosesau gofal iechyd a diogelu yn cael eu hymestyn ymhellach gan boblogaeth sy'n ehangu, ac roedd canolfannau symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr Brook House a Harmondsworth yn dal mwy o bobl nag y gallent eu rheoli'n effeithiol. Cynyddodd camddefnyddio sylweddau o gryn dipyn a daeth yn gyffredin, gan ddangos ansefydlogrwydd, rheolaeth wael gan staff a diogelwch gwan. Roedd cynnydd mewn trais, gan gynnwys arfau byrfyfyr yn cael eu nodi gan Fyrddau Monitro Annibynnol, yn broblem benodol yn Harmondsworth a Colnbrook. Disgrifiodd yr arolygwyr yr amodau a'r driniaeth yn Harmondsworth fel y gwaethaf yr oeddent wedi'i weld mewn canolfan symud ymlaen ar gyfer mewnfudwyr. Roedd trais wedi dyblu ers yr arolygiad diwethaf. Canfu adolygiad annibynnol o gynnydd, a gyhoeddwyd ar ôl y cyfnod adrodd, cynnydd cadarnhaol iawn o ran pryderon.

Mae'r DU wedi rhoi mesurau diogelu ar waith drwy Reolau Canolfannau Cadw a'r Rheolau Cyfleusterau Dal Tymor Byr.<sup>29</sup> Rhaid i'r rheini sy'n cael eu cadw dderbyn neu gael cynnig prawf sgrinio gofal iechyd o fewn cyfnod penodol ar ôl iddynt gyrraedd y ddalffa. Os yw'r ymarferydd meddygol o'r farn y bydd eu cadw'n gaeth yn barhaus yn niweidiol i'w hiechyd - yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn oherwydd profiadau blaenorol o arteithio, ond dylai hefyd fod yn berthnasol ar gyfer meddwl am hunanladdiad a chyflyrau iechyd eraill - rhaid i'r Swyddfa Gartref ystyried ei hadroddiad a phwyso a mesur y risgiau yn erbyn ystyriaethau rheoli mewnfudo.<sup>30</sup> Fis Mai 2024, ysgrifennodd Byrddau Monitro Annibynnol yng nghanolfannau symud ymlaen Gatwick a Heathrow at y Swyddfa Gartref i drafod methiannau yn nyletswydd statudol y Swyddfa Gartref i amddiffyn pobl agored i niwed rhag niwed, gan gyfeirio at fethiannau systemig mewn mesurau diogelu ar gyfer y nifer uwch o bobl agored i niwed sydd bellach yn cael eu cadw. Roedd llawer o bobl yn y ddalffa rai misoedd ar ôl asesiad meddyg bod cadw'n gaeth yn peri risg ddirifol o niwed, hyd yn oed pan oedd y Swyddfa Gartref wedi cytuno y dylid eu rhyddhau. Roedd prosesau i nodi risg mewn cyfweliadau derbyn yn aneffeithiol, gan gynnwys gofyn cwestiynau sensitif mewn ardaloedd nad ydynt yn breifat, gwneud datgelu'n fwy peryglus, ac felly'n llai tebygol. O bryd i'w gilydd, roedd tan ddefnydd o'r gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd sydd ar gael yn golygu nad oedd cyfweliadau derbyn yn gallu cofnodi risgiau na ffactorau oedd yn gwneud pobl yn agored i niwed.

Roedd cynnydd yn y boblogaeth yn ychwanegu heriau pellach i'r methiant parhaus i gynnal a chadw. Yn Tinsley House, roedd angen

26 **Faint o bobl sy'n cael eu cadw dan bwerau mewnfudo yn y DU? - Chwefror 2025 - Y Swyddfa Gartref**

27 **Mae'r Swyddfa Gartref yn gwrthod galwad y Pwyllgor Hawliau Dynol am derfyn amser ar gadw mewnfudwyr - mis Gorffennaf 2029 - Pwyllgorau - Senedd y DU**

28 Nid yw troseddwy'r Gwladolion Tramor sydd â'r troseddau mwyaf difrifol yn cael eu trosglwyddo i IRC o dan wiriadau a balansau'r Swyddfa Gartref, gweler y Cyfarwyddiadau Cyffredinol Cadw ar gyfer ystyriaethau asesu risg.

29 **The Detention Centre Rules 2001 – gov.uk; The Short-term Holding Facility Rules 2018 – gov.uk**

30 Gorchymyn Gwasanaethau Cadw 08/2016 Rheoli oedolion mewn perygl wrth gadw mewnfudwyr - Awst 2022

buddsoddiad mawr i ddatrys problemau draenio sy'n effeithio ar ansawdd aer a hylendid yn y ganolfan. Cwynodd unigolion wrth y Bwrdd Monitro Annibynnol am ddiffyg papur toiled, diffyg sebon, a diffyg llenni cawod. Disgrifiodd y Bwrdd yr amodau ar ôl uwchgyfeirio cwynion fel rhai oedd yn parhau i fod yn fudr, yn ddrewllyd ac yn flêr.<sup>31</sup> Nododd Arolygiaeth Carchardai EF, er bod un adain yn Harmondsworth ar gau i'w hadnewyddu, roedd adain yr un mor wael yn dal i gael ei defnyddio.<sup>32</sup>

## Cynnydd mewn hunan-niweidio a hunanladdiad

Nid yw canolfannau symud ymlaen wedi'u harfogi i roi'r gofal sydd ei angen, ac nid oes ganddynt fannau priodol i ofalu am nifer cynyddol o bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl cynyddol gymhleth. Nid oedd staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gefnogi'r rhai a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa, rhai ohonynt wedi'u cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac roedd y timau gofal iechyd wedi'u gorlwytho a'u staffio'n anghyson. Roedd cynnydd gofidus mewn achosion o hunan-niweidio a chynyddodd nifer yr ymdrechion i gyflawni hunanladdiad yn ystad canolfannau symud ymlaen dynion yn 2024-2025.<sup>33</sup> Trafododd llawer o garcharorion eraill sy'n cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael a theimladau o iselder ar ôl cyrraedd y canolfannau, a oedd mor gyffredin fel bod Byrddau Monitro Annibynnol yn ei normaleiddio i staff, heb ddigon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â ffactorau risg iechyd meddwl a'u hatal a lleihau cyfraddau hunan-niweidio. Sylwodd y Byrddau Monitro Annibynnol ar bobl nad oeddent yn gallu ymdopi, gan achosi niwed difrifol sy'n newid bywyd iddynt eu hunain.<sup>34</sup>

Yn ôl Byrddau Monitro Annibynnol, roedd mwy o bobl yn cael eu cadw mewn Unedau

Gofal a Gwahanu, ac am gyfnodau hirach. Gellir symud unigolion, ar ôl cael eu tynnu o gysylltiad (Rheol 40) neu eu caethiwo dros dro (Rheol 42), i Uned Gofal a Gwahanu am ddim mwy na 24 awr, y gellir ei ymestyn i uchafswm o 14 diwrnod gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, cafodd rhai unigolion dan glo eu hynysu mewn Uned o'r fath am sawl wythnos ar y tro, wrth i'r awdurdodiad 14 diwrnod gael ei adnewyddu dro ar ôl tro. I'r rhai â salwch meddwl, roedd hyn yn aml oherwydd diffyg gofal mwy priodol a'r heriau o fyw mewn canolfan symud ymlaen bob dydd. Roedd yn ymddangos bod yr ynysu hirdymor yn achosi dirywiad mewn iechyd meddwl i rai pobl a oedd yn cael eu gweld gan Fyrddau Mointro Annibynnol.

## Defnyddio grym

Ochr yn ochr â'r cynnydd yn y boblogaeth o dan Operation Safeguard a'r lefelau cynyddol o drais, cynyddodd y defnydd o rym mewn lleoliadau cadw mewnfudwyr yn 2024-25. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn poeni na chafodd egwyddorion defnyddio grym yn ddiogel eu dilyn yn gyson. Roedd staff yn defnyddio grym wrth allgludo, weithiau am gyfnodau hir ac ar bobl agored i niwed. Ni chofnodwyd bob amser pam y defnyddiwyd grym. Dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid defnyddio grym a phan fydd angen gwneud hynny er mwyn cyflawni nodau cyfreithlon, ac nid oes dewis arall ar gael. Yng Nghyfleusterau Dal Tymor Byr y DU yn Ffrainc, roedd goruchwyliaeth wael o'r defnydd o rym gan staff Llu'r Ffiniau, gyda rhywfaint o ddeunydd neu adroddiadau heb eu hadolygu o gwbl, a dim digon o wybodaeth am ddiogelu. Roedd bron pawb a gafodd eu cludo i ysbytai o ganolfannau symud ymlaen Gatwick yn cael eu cludo

31 [Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwy'r ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol](#)

32 [Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gorffennaf 2025 Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr](#)

33 [Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwy'r ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol](#)

34 [Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwy'r ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol](#)

mewn gefynnau fel mater o drefn, a oedd yn annog pobl i beidio ag ymweld â'r ysbyty eto oherwydd stigma. Roedd y dull hollgynhwysfawr yn seiliedig ar ganllawiau llymach gan y Swyddfa Gartref, a oedd yn cael eu dehongli, yn anghywir, fel rhai a oedd yn galw am ddefnydd cyffredinol o gefynnau.

Caniateir gwahanu mewn Unedau gofal a Gwahanu pan fo angen ar gyfer diogelwch ac ni ddylid byth defnyddio'r mesurau hyn fel cosb. Fodd bynnag, roedd Byrddau Monitro Annibynnol yn gweld gwahanu'n cael ei weithredu'n aml naill ai pan oedd rhywun yn gwrthod rhannu ystafell neu i baratoi ar gyfer allgludo ac osgoi tarfu a ragwelir.

## Pryderon ynghylch Cyfleusterau Dal Tymor Byr

Roedd oedi cyn trwsio rhai Cyfleusterau, a gafodd ei ymestyn gan weithdrefnau gwneud penderfyniadau hirfaith a oedd yn cynnwys yr asiantaethau niferus a oedd yn gweithio ar safleoedd. Weithiau roedd hyn yn arwain at eithafion tymheredd, gydag ystafelloedd dal yn gostwng i 10.9 gradd mewn un achos (yn y cyfamser, yng nghanolfan symud ymlaen Heathrow, arweiniodd methiant awyru at gadw'r rhai dan glo ar dymheredd uchel iawn, heb ffaniau). Nid oedd digon o hanfodion sylfaenol yn cael eu cynnig, mewn rhai lleoliadau, a oedd yn cynnwys bwyd, a blancedi ar gyfer y rheini a oedd yn cael eu cadw dros nos mewn cyfleusterau porthladd. Dywedodd y Byrddau Monitro Annibynnol ei fod yn gyffredin i bobl fod heb ddillad gwely, ac roedd llawer yn eistedd drwy'r nos ar gadeiriau plastig caled neu'n cysgu ar y llawr yn y lleoliadau hynny.<sup>35</sup> Canfu'r arolygwyr bod rhai Cyfleusterau Dal Tymor Byr prin yn addas i'r diben, er gwaethaf gwelliannau mewn rhai eraill.<sup>36</sup> Cafodd bwyd poeth ei dynnu'n ôl yn y cyfleusterau a reolwyd yn uniongyrchol gan Lu'r Ffiniau yn 2023 ar ôl methu â chyrraedd safonau bwyd awdurdodau lleol, ond drwy gydol 2024 roedd rhai ystafelloedd dal yn

parhau i fethu â chynnig bwyd neu ddiod boeth, a lle'r oedd bwyd poeth ar gael nid oedd bob amser yn addas i'r rhai dan glo, er enghraifft nid oedd yn cynnwys opsiwn halal.

Roedd pobl a oedd yn cael eu cadw yn y rhan fwyaf o Gyfleusterau Dal Tymor Byr yn dal i gael eu hamddifadu o'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn dan bolisi'r Swyddfa Gartref, gan roi eu hiechyd mewn perygl sylweddol. Mae polisi'n mynnu bod yr holl feddyginiaethau'n cael eu cymryd, a heb ddarpariaeth gofal iechyd neu fferyllol benodol mewn Cyfleusterau Dal Tymor Byr, mae'r broses o gael cyngor meddygol a phresgripsiynau newydd dros y ffôn neu mewn cyfleusterau brys yn arwain at arosiadau hir a diangen. Mae hyn wedi cael ei godi gan y Byrddau Monitro Annibynnol ers 2017, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi adrodd ar ddyfarniad contract newydd ar gyfer meddyginiaeth sydd i'w gwneud yn 2026. Fodd bynnag, am weddill y flwyddyn hon, mae'n debygol y bydd y rheini sy'n cael eu cadw mewn cyfleusterau o'r fath yn parhau i golli ffenestri meddyginiaeth hanfodol.

Roedd cadw rheolaidd mewn ystafelloedd cadw y tu hwnt i'r terfyn amser 24 awr, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid mynd y tu hwnt i hyn dan awdurdodiad yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn achosi'r pryder mwyaf, sylwodd y Byrddau Monitro Annibynnol eu bod yn cael eu cadw am fwy na 24 awr mewn ystafelloedd bach heb ffenestri, sy'n golygu nad oedd gan unigolion fynediad at awyr iach na golau haul. Mewn Cyfleusterau Dal Tymor Byr maes awyr amhreswyl, a gynlluniwyd i ddal pobl am ychydig oriau'n unig, cadwyd chwarter y rhai dan glo - gan gynnwys llawer o blant - am fwy na 12 awr, a chadwyd bron i 600 am fwy na 24 awr yn y chwe mis cyn arolygiad Carchar Ei Fawrhydi ym mis Ionawr 2024 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024). Ym maes awyr Luton, roedd plant yn cael eu cadw mewn ystafelloedd dal gorlawn gydag oedolion nad oeddent yn perthyn iddynt, gan godi pryderon diogelu sylweddol.


35 [Adroddiad Blynyddol Cenedlaethol 2024; Carchardai oedolion, sefydliadau troseddwy'r ifanc a chadw mewnfudwyr - mis Mehefin 2025 - Bwrdd Monitro Annibynnol](#)

36 [Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gorffennaf 2025 Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr](#)

Roedd prinder staff ac, mewn rhai Cyfleusterau ar arfordir Caint, cyfyngiadau o ran gofod, yn golygu bod rhaid cadw pobl mewn faniau, mewn ardaloedd aros heb gyfleusterau digonol, neu mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd eu gweld am sawl awr, gan beryglu preifatrwydd ac urddas.

Roedd dau o'r Cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg yn y DU yn Ffrainc, a arolygwyd ym mis Tachwedd 2024, yn cadw pobl mewn ystafelloedd bach, diflas heb lawer o olau naturiol, heb fynediad at yr awyr agored na chyfleusterau cysgu cyfforddus. Er bod Llu'r Ffiniau yn prosesu achosion yn effeithlon, roedd rhai pobl - gan gynnwys plant - yn cael eu cadw yn yr ystafelloedd hyn am fwy na 10 awr ac nid oedd dadansoddiad o pam roedd cadw'n gaeth yn para mor hir.

## Cadw'n gaeth ac amddifadu o ryddid mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion



Argraffiadau o'r lleoliadau iechyd meddwl diogelwch uchel yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 21. Sylwch nad yw lleoliadau diogelwch isel a chanolig yn cael eu cofnodi, ac nid yw lleoliadau lle gallai pobl gael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau gofal cymdeithasol yn cael eu cofnodi chwaith. Dim ond fesul sir neu ardal gomisiynu y cynrychiolir lleoliadau diogelwch uchel.

Mae deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol yn y DU yn caniatáu amddifadu rhyddid pobl mewn rhai amgylchiadau. Mewn rhai lleoliadau iechyd fel ysbytai Iechyd Meddwl Diogel, byddai'r rhan fwyaf neu'r holl bobl sy'n derbyn gofal yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid, mewn lleoliadau eraill fel cartrefi gofal neu ysbytai aciwt, efallai mai dim ond i rai o'r bobl sy'n derbyn gofal y bydd hyn yn digwydd.



## Sefydliadu pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig

Gall pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig dreulio blynyddoedd lawer mewn ysbytai neu unedau iechyd meddwl yn benodol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ledled y DU. Mae cadw'n gaeth yn absenoldeb anghenion unigol, therapiwtig mewn perygl o dorri'r hawl i ryddid (erthygl 5 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) ac mae perygl o driniaeth sy'n torri erthygl 3 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<sup>37</sup> Gall treulio blynyddoedd mewn sefydliad (ee ysbyty) erydu gallu person i weld ffrindiau a theulu, a'u rhyddid i wneud dewisiadau bob dydd, neu benderfynu am feddyginiaeth neu driniaeth, gan effeithio ar eu hawliau i fywyd preifat a theuluol ac i allu cyfreithiol. Mae perygl y bydd y posibilrwydd parhaus o ataliaeth a neilltuaeth yn creu ymatebion trawmatig sy'n herio'r gwaharddiad ar artaith a thriniaeth a chosb greulon ac annynol arall.

Yn yr Alban, cynhaliodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban a Chomisiwn Lles Meddyliol yr Alban adolygiadau penodol o achosion neu effeithiau sefydliadu ar gleifion mewnol hirdymor. Edrychodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban ar yr amodau ar gyfer 55 o bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth sydd wedi bod yn yr ysbyty yn yr Alban ers 10 mlynedd neu fwy, a chanfu fod pobl yn aros yn yr ysbyty am ormod o amser - 18 mlynedd a dau fis ar gyfartaledd. Mae hyn yn torri eu hawliau i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned, er gwaethaf gwahanol bolisiau yn ystod y deng mlynedd diwethaf i gefnogi'r gwaith o wireddu'r hawl hon.<sup>38</sup> Yn ogystal â phobl ar y Gofrestr Cymorth Dynamig yn yr Alban a'r rhestr rhyddhau gohiriedig, ystyriwyd bod cleifion eraill yn byw yn yr ysbyty heb gynllun rhyddhau, nad oeddent ar y naill restr na'r llall ac felly heb yr

un mesurau diogelu cyfreithiol. Mae'r Gofrestr Cefnogaeth Ddeinamig yn bodoli er mwyn sicrhau mai dim ond am gyn hired ag y mae angen asesiad a thriniaeth arnynt y mae pobl yn yr ysbyty, ond nid yw wedi cyflawni'r nod hwn. Cafodd deg unigolyn allan o 18 eu cofnodi fel achosion o oedi wrth ryddhau cleifion. I naw o'r rhain, nid oedd yn glir ers pryd y bu oedi cyn eu rhyddhau, ac ystyriwyd bod rhai yn ddigon da yn glinigol i adael yr ysbyty mor bell yn ôl â 2013. Ar ôl treulio dros 10 mlynedd yn yr ysbyty, roedd 14 claf o'r 18 yr ymwelodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban â nhw yn destun ymyriadau cyfyngol. Nid oedd cynlluniau gofal ac amgylcheddau bob amser yn addas i'r diben. Roedd pobl wedi colli sgiliau byw'n annibynnol, wedi colli hyder, ac wedi profi gofid mewn sefyllfa ward grŵp. Fodd bynnag, canfu Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban rywfaint o arferion da a chydweithredol o ran rhoi cynlluniau rhyddhau cynhwysol a gweithredol ar waith er gwaethaf pryderon am gapasiti adnoddau gofal cymunedol i ddiogelu'r unigolyn a diwallu ei anghenion.

Bwriad y Cynllun Gweithredu Dod Adref oedd mynd i'r afael â phryderon difrifol ynghylch hawliau dynol pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig mewn ysbytai. Fodd bynnag, ni chyrrhaeddwyd y targed i leihau'n sylweddol nifer y bobl mewn gofal sefydliadol, yn hytrach na chymunedol, erbyn mis Mawrth 2024, ac ychydig o ddilyniant sydd wedi bod ar ddefnyddio Cronfa Byw yn y Gymuned i hwyluso symud i ofal yn y gymuned. Nid yw Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban yn adrodd am unrhyw ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n byw mewn sefydliadau, a dim gostyngiad ystyrlon yn yr amser y maent yn ei dreulio yno. Mae staff sy'n gweithio gyda'r garfan hon yn parhau i fod heb eu hyfforddi'n ddigonol yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae Comisiwn Hawliau Dynol

37 [Craffu Deddfwriaethol: Bil Iechyd Meddwl a Thrydydd Adroddiad Sesiwn 2024-25 - mis Mai 2025 - Senedd y DU](#)

38 [Yr hyn sy'n allweddol i fywyd: Improving quality of life for people with learning disabilities – Mehefin 2013 – Llywodraeth yr Alban; Coming Home: A Report on Out-of-Area Placements and Delayed Discharge for People with Learning Disabilities and Complex Needs – Tachwedd 2018 – Llywodraeth yr Alban; Coming Home Implementation: report from the Working Group on Complex Care and Delayed Discharge – Chwefror 2022 – Llywodraeth yr Alban](#)

yr Alban yn argymhell diwygio'r gyfraith ar frys i ddileu cadw cyfreithlon oherwydd diffyg cymorth cymunedol a ddarperir gan y wladwriaeth, yn hytrach nag angen clinigol.

Ym mis Hydref 2024, nododd adroddiad cau gan Gomisiwn Lles Meddyliol yr Alban ar driniaeth orfodol ar gyfer salwch meddwl yn y gymuned y bydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban nawr yn cofnodi adolygiadau dwy flynedd lle mae unigolyn wedi bod ar Orchymyn Triniaeth Orfodol yn y Gymuned ers dros bum mlynedd. Mae hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban bod bron i dri chwarter y gorchmynion hyn wedi bod ar waith ers dros ddwy flynedd, gyda rhai pobl yn destun gorchymyn triniaeth gymunedol gorfodol ers 17 mlynedd. Cynhaliwyd cyfarfod gydag Is-bwyllgor Iechyd Meddwl ac Anabledd Cymdeithas y Gyfraith ym mis Medi 2024 ynghylch barn y Comisiwn ar fanteision, neu ddim, gorchmynion triniaeth gymunedol gorfodol hirdymor.

Yng Ngogledd Iwerddon, arweiniodd diffyg lleoliadau cymunedol i bobl ag anabledd dysgu at oedi cyn rhyddhau cleifion o leoliadau aciwt. Mae cynnydd araf wedi cael ei wneud i ailsefydlu cleifion yn Muckamore Abbey, er bod cleifion wedi cael eu rhyddhau'n llwyddiannus i'r gymuned. Mae gormod o bobl yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl o hyd, sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, yn ogystal â'r gallu i dderbyn cleifion newydd (gan gynnwys y rheini sydd i'w trosglwyddo o'r carchar).

Yn Lloegr, mae gormod o bobl awtistig neu bobl ag anabledd dysgu yn parhau i gael eu cadw mewn wardiau iechyd meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.<sup>39</sup> Maent yn cael eu cadw am lawer gormod o amser; ym mis Mehefin 2024, roedd y rhan fwyaf o'r cleifion hyn wedi bod yn yr ysbyty am fwy na dwy flynedd, ac roedd bron i un claf o bob chwech wedi aros yn yr ysbyty am fwy na 10 mlynedd. Mae oedi cyn rhyddhau cleifion yn aml yn gysylltiedig â diffyg lleoliadau sydd ar gael mewn gofal preswyl, diffyg cymorth gofal cymdeithasol priodol, neu ddiffyg tai addas. Nid yw'r rhan fwyaf o wardiau ysbytai yn cynnig amgylcheddau therapiwtig i bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu. Maent wedi'u goleuo'n llachar, a gall wardiau iechyd meddwl fod yn swnllyd ac anhrefnus, sy'n cyfrannu at ofid, sy'n gallu arwain at ataliaeth, neilltuaeth a gwahanu. Mae pob un o'r rhain yn achosi gofid a thrawma.

Yng Nghymru, mae diffyg cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion a diffyg digon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i sicrhau llwybrau effeithiol drwy wasanaethau hefyd yn cyfrannu at arosiadau estynedig, gan effeithio ar nifer y gwelyau sydd ar gael.

## Diwylliannau caeedig

Comisiynodd y Comisiwn Ansawdd Gofal y Llyfrgell Profiad Cleifion i ddadansoddi rhybuddion o ymchwiliadau i niwed y gellir ei osgoi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>40</sup> Mae'r adroddiad yn dod o hyd i batrymau niweidiol mewn ymddygiad a diwylliannau, a'r baneri coch sy'n gallu helpu i'w nodi. Mae canlyniad y dadansoddiad yn cynnwys adnodd olrhain Baner Goch, sy'n gallu helpu unrhyw un sy'n teimlo bod rhywbeth "ddim yn hollol iawn" i wirio eu pryderon cychwynnol yn erbyn tystiolaeth.

Ddechrau 2024, dechreuodd y Comisiwn Ansawdd Gofal ymgysylltu ag arbenigwyr pwnc allanol mewn cam-drin sefydliadol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Grŵp Cyfeirio Arbenigol, a gynhaliwyd gan Bartneriaid Gofal ac Iechyd. Mae'r grŵp wedi cydweithio i gasglu a chyhoeddi adnoddau ar gam-drin sefydliadol, wedi cynnal gweminar gyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil i lywio gwaith cenedlaethol ar atal, nodi ac ymateb i gam-drin sefydliadol. Mae'r Grŵp Cyfeirio Allanol wedi codi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau caeedig sy'n gallu datblygu mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>41</sup>

Ym maes gofal cymdeithasol i oedolion, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi cymryd camau gorfodi yn y lleiafrif bach o'u hasesiadau o gartrefi gofal a gwasanaethau byw â chymorth lle mae diwylliant caeedig a defnydd gwael o'r Ddeddf Galluedd Meddylol yn golygu bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon.

## Ymyriadau cyfyngol, neilltuaeth ac ataliaeth

Yn dilyn adolygiad annibynnol y Farwnes Hollins ac adroddiad 2023 ar ofal i bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu mewn achosion o wahanu hirdymor mewn lleoliadau cleifion mewnol, gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i'r Comisiwn Ansawdd

Gofal arwain rhaglen o Adolygiadau Gofal Annibynnol (Addysg) a Thriniaeth am gyfnod o ddwy flynedd gydag adolygiadau'n dechrau ym mis Mai 2024. Erbyn mis Mawrth 2025, roedd y Comisiwn Ansawdd Gofal wedi cwblhau 47 adolygiad o ofal pobl, gan arwain at rai newidiadau cadarnhaol pwysig, gan gynnwys yr 11 o bobl a adawodd wahanu hirdymor naill ai i ward neu gartref newydd yn y gymuned. Mae'r dull yn canolbwyntio ar sicrhau bod hawliau dynol pobl yn cael eu diogelu, gwella bywydau a llesiant pobl, a gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ofal yr unigolyn. Nod ehangach y rhaglen yw lleihau'r defnydd o wahanu hirdymor yn genedlaethol.

Cwblhaodd y Comisiwn Ansawdd Gofal 702 o ymweliadau monitro Deddf Iechyd Meddwl yn ystod y flwyddyn adrodd, ag amrywiaeth eang o leoliadau ysbyty, gan gynnwys 124 mewn lleoliad iechyd meddwl ffopensig. Mae ymweliadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys canolbwyntio (drwy ymgysylltu â phobl sy'n derbyn gofal) ar b'un a yw hawliau pobl yn cael eu cynnal a bod cyfyngiadau'n briodol. Drwy eu gweithgarwch monitro, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi gweld cleifion yn cael eu cadw mewn amgylcheddau rhy gyfyngol o ganlyniad i brinder gwelyau. Roedd cyfyngiadau cyffredinol ar wardiau, a mynediad at awyr iach a manau awyr agored hefyd yn faes pryder allweddol i adolygwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ym mis Rhagfyr 2024, nododd y Comisiwn Ansawdd Gofal bryderon cynyddol ynghylch defnyddio ataliaeth gemegol, yn enwedig defnyddio mewndiwbio. Roedd gweithgarwch rheoleiddio wedi nodi enghreifftiau o hyn yn cael ei ddefnyddio mewn ysbytai i reoli pobl awtistig neu bobl ag anabledd dysgu wrth gyfleu gofid. Roedd hyn yn bryder penodol ynglŷn ag achosion o dawelyddion trwm mewn lleoliadau aciwt ac roedd yn effeithio ar bobl o bob oed. Tynnodd y Comisiwn Ansawdd Gofal sylw at y ffaith bod arferion cyfyngol fel ataliaeth gemegol yn amhriodol

40 [Ymateb i her - Ebrill 2025 - Y Comisiwn Ansawdd Gofal](#)

41 [Sut mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn nodi ac yn ymateb i ddiwylliannau caeedig - Mai 2022 - Y Comisiwn Ansawdd Gofal; Diwylliannau caeedig ym maes gofal cymdeithasol: Canllawiau a chwestiynau i'w gofyn - Ebrill 2024 - Cymdeithas Llywodraeth Leol](#)

pan ellid bod wedi eu hatal drwy well cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gwrando, dealltwriaeth, sgiliau, cymorth a chydweithio rhwng partneriaid yn y system a'u bod yn effeithio ar hawliau dynol pobl. Mae prinder gweithlu yn her wrth adeiladu gweithlu medrus sy'n gallu defnyddio dulliau atal. Mae safbwynt polisi y Comisiwn Ansawdd Gofal ar leihau arferion cyfyngol yn ymdrin â'r disgwyliadau bod darparwyr yn hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol lle mae staff yn gwrando ar ac yn deall pobl yn eu gofal, yn hyrwyddo ymddiriedaeth, yn cefnogi adferiad, ac yn gwarchod diogelwch a llesiant.

Mewn un ysbyty yn yr Alban yr ymwelodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban ag ef, nid oedd cofnodion unigolion a oedd yn destun cyfarpar atal meddal mor fanwl ag yr oedd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban yn ei ddisgwyl. Roedd adolygiadau bob dydd o unigolion a oedd yn destun cyfarpar atal meddal, ond roeddent yn ymddangos yn symbolaidd gan nad oedd gan staff yr awdurdod i wneud penderfyniadau clinigol nac argymhellion i roi'r gorau i ddefnyddio pecynnau'n cynnwys cyfarpar atal meddal. Yr unig berson ag awdurdod i dynnu'r pecynnau oedd swyddog meddygol cyfrifol mewn cyfarfod gofal a thriniaeth bob wythnos. Nid yw penderfyniad bob wythnos yn gymesur nac yn rhesymol. Argymhellodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban adolygiad ystyrion o leiaf unwaith y dydd.

Yng Nghymru, roedd staff yn Llys Llanarth yn gefnogol ac yn barchus ac roedd cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ac arweinyddiaeth gref yn gryfderau, er bod swyddi gwag o hyd ar gyfer staff. I rai cleifion, roedd ystafelloedd gwely en-suite yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas. Roedd yr arferion lleiaf cyfyngol wrth gynllunio gofal ac mewn practisiau ward yn cefnogi gofal unigol i gleifion, ac roedd model o ofal lleiaf cyfyngol yn arwain staff i bob pwrpas i ganolbwyntio ar ymgysylltu therapiwtig, gan greu awyrgylch hamddenol. Pan ddefnyddiwyd dulliau atal, roedd cofnodi a goruchwyllo trwyadl yn caniatáu i'r holl staff ddysgu o ddigwyddiadau. Roedd ailgyfeirio a thawelu yn barchus ac yn gefnogol. Pan roddwyd cleifion mewn ystafelloedd gofal dwys i reoli ymddygiad ymosodol neu aflonyddedig, defnyddiwyd strategaethau ymadael i ailintegreiddio yn ôl i'r brif ward, gan alluogi cleifion i osod eu nodau eu hunain i gefnogi hyn.

Yng Ngogledd Iwerddon, nododd Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd yn y Carchar ddulliau anghyson o adnabod a rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn unol â gweithdrefnau rhanbarthol. Mae heriau mewn lleoliadau gofal a materion sy'n ymwneud â neilltuaeth ac ataliaeth mewn perygl o dorri hawliau dynol a'r Polisi Rhanbarthol ar Ddefnyddio Arferion Cyfyngol mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â'r Weithdrefn Weithredol Ranbarthol ar gyfer Defnyddio Neilltuaeth yng Ngogledd Iwerddon, 2023.



## Oedi ac anawsterau systemig

Yn Lloegr, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn arolygu ac yn monitro ysbytai a chartrefi gofal, ac mewn unrhyw un ohonynt gall pobl fod yn destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n craffu ar ysbytai, ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n arolygu cartrefi gofal sydd â darpariaeth nyrsio neu sydd hebddi. Mae cyfanswm nifer y ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a dderbynnir bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr ymhell y tu hwnt i'r lefelau disgwylidiedig pan gafodd y mesurau diogelu eu dylunio, gan arwain yn aml at oedi hir. Mae hyn yn golygu bod pobl mewn amgylchiadau agored i niwed yn aros yn llawer rhy hir heb y mesurau diogelu cywir neu warchodaeth gyfreithiol.

Yn Lloegr, mae problemau gyda'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn parhau i effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol o bobl. Roedd arolwg y Comisiwn Ansawdd Gofal o arweinwyr y Ddeddf Galluedd Meddyliol mewn ysbytai yn tynnu sylw at bryderon ynghylch pobl hŷn, gan gynnwys y rheini sydd â dementia. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn dal i weld amrywiaeth eang yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn rheoli ceisiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Er bod rhai awdurdodau lleol yn dweud nad oes ganddynt unrhyw ôl-groniadau, mae eraill yn ei chael yn anodd ateb y galw.

Mae'r cyd-destun polisi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn newid, ac mae'n debygol y bydd gan hyn oblygiadau i'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Roedd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid i fod i ddisodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, ond gohiriwyd eu gweithredu sawl gwaith. Yng ngoleuni'r problemau cronig a hirsefydlog sy'n effeithio ar y system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi parhau i dynnu sylw at yr angen am ymyrraeth a diwygio sylweddol. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi croesawu cyhoeddiad diweddar y llywodraeth ei bod yn bwriadu ymgynghori ar yr Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn 2026.

Mae maes arall sydd ar y gweill ar gyfer newid yn deillio o'r diwygiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Er gwaethaf uchelgais y Bil i atal pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu rhag cael eu cadw yn yr ysbyty yn yr hirdymor, mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn poeni y gallai diffyg dewisiadau amgen addas yn y gymuned arwain at bobl yn cael eu cadw dan fframweithiau cyfreithiol eraill, fel Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar system sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd nad yw bob amser yn diogelu hawliau pobl yn effeithiol.

Mae oedi wrth gwblhau ac awdurdodi asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru hefyd wedi arwain at gyfnodau o amddifadedd anghyfreithlon. Yn yr Alban, ni ymgynghorwyd â swyddogion iechyd meddwl bob amser ynghylch cadw mewn argyfwng, sydd hefyd yn gwanhau'r mesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau bod unrhyw amddifadu o ryddid yn gwbl angenrheidiol ac er budd pennaf yr unigolyn.

## Materion systemig eraill

Yn Lloegr, mae pwysau ar y system yn golygu bod pobl (gan gynnwys pobl ifanc) yn gallu cael eu cadw ymhell o'u cartref neu mewn amgylcheddau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch cadw'r gweithlu, hyfforddiant a chymorth i staff, gyda thystiolaeth nad yw staff yn cael yr hyfforddiant arbenigol sydd ei angen, yn enwedig wrth ofalu am bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu. Mewn lleoliadau gofal iechyd mewn rhai rhannau o Gymru, mae anawsterau o ran staffio, recriwtio a chadw staff wedi achosi problemau tebyg, gyda phrinder staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i sicrhau llwybr gofal effeithiol a rheoli meddyginiaethau'n effeithiol a diffyg gwelyau ysbyty.

Mewn ysbytai diogel yn yr Alban, roedd y canfyddiadau cadarnhaol yn cynnwys mynediad at fannau gardd diogel a llwybrau cerdded, cofnodion gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn cynnwys safbwyntiau cleifion, wardiau sydd wedi'u goleuo'n dda ac sy'n eang. Roedd

arsylwi gwell, nyrsio mewn ystafelloedd gwely, ystafelloedd ochr neu ystafelloedd dydd wardiau yn cefnogi diogelwch cleifion ac roeddent i gyd yn cael eu darparu yn unol ag arferion da. Nid oedd rhai staff nyrsio yn deall eu cyfrifoldebau tuag at bobl benodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (sy'n cynnwys unrhyw un sy'n cael ei gadw mewn amgylchedd diogel iawn). Er bod mesurau diogelwch fel polisïau drws wedi'i gloi neu arsylwadau gwell yn cyd-fynd yn bennaf ag arferion da, roedd rhai cleifion o dan ormod o fesurau diogelwch, yn rhannol oherwydd y broses o aros am le mewn ward diogelwch is. Roedd rhai wedi apelio i'r Goruchaf Lys. Roedd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban yn poeni nad oedd hawliau unigolion i symud yn cael eu diwallu a'u bod yn mynd ar drywydd achosion unigol.

Yn dilyn dros 25 arolygiad o'r GIG ac ysbytai annibynnol, a thimau iechyd meddwl cymunedol ledled Cymru, canfu AGIC fod gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu yng Nghymru yn parhau i wynebu heriau systemig sy'n codi dro ar ôl tro. Mae gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei lesteirio gan brinder staff, dirywiad ffisegol lleoliadau, a gwendidau o ran llywodraethiant. Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau'n dangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, nododd AGIC feysydd i'w gwella o ran dogfennu, cydsynio i driniaeth a chynllunio ar gyfer rhyddhau.

Mae ansawdd a chysondeb gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu yn parhau i gael eu peryglu gan anawsterau parhaus o ran recriwtio a chadw staff medrus mewn nyrsio, seicoleg a therapi galwedigaethol. Roedd morâl rhai lleoliadau'n isel, ac roeddent yn ei chael hi'n anodd llenwi rolau arbenigol a dibynnu'n fawr ar staff banc ac asiantaeth. Roedd y cyfyngiadau staffio hyn, ynghyd â'r defnydd uchel o welyau, yn golygu bod gwasanaethau cleifion mewnol dan bwysau, er gwaethaf ymrwymiad clir i roi gofal tosturiol. Sylwodd AGIC ar enghreifftiau cadarnhaol o weithio amlddisgyblaethol a chydymffurfio cyfreithiol â Deddf Iechyd Meddwl 1983.


Canfuwyd bod gan nifer fawr o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau annibynnol waith cynnal a chadw gwael, gosodiadau wedi'u difrodi a phrosesau atal a rheoli heintiau annigonol, gyda rhai ysbytai'r GIG angen cynlluniau gwella brys, am eu bod wedi dirywio ers arolygiad diwethaf AGIC. Er gwaethaf argymhellion blaenorol ac ailadroddus, canfu AGIC fylchau mewn dogfennu, arferion storio gwael a goruchwyliaeth anghyson o ran rheoli meddyginiaethau. Mae diffyg gwelliant parhaus yn peri risgiau i ddiogelwch cleifion.

Roedd gan nifer o wasanaethau arferion rheoli risg annigonol, a phrosesau archwilio anghyson. Roedd gan gleifion fynediad cyfyngedig at ofod personol diogel, ychydig o ardaloedd a oedd yn rhywedd-benodol a mynediad anghyson at eiriolaeth a gwybodaeth.

## Dulliau atal gwrth-hiliol

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r gorgynrychiolaeth o bobl Ddu sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac sy'n cael eu rhoi ar orchmynion triniaeth gymunedol yn Lloegr, ac mae wedi croesawu cyflwyno'r Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Cleifion a Gofalwyr (PCREF), y fframwaith gwrth-hiliaeth cyntaf ar gyfer ymddiriedolaethau iechyd meddwl a darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn cydnabod bod y Fframwaith yn rhan bwysig o ddatblygu gofal sy'n parchu hawliau ac mae wedi cynnwys cwestiwn trafod pwysig i'w Adolygwyr Deddf Iechyd Meddwl archwilio mabwysiadu'r Fframwaith yn eu hymweliadau eleni. Fis Medi 2024, ymrwymodd y Comisiwn Ansawdd Gofal i fod yn sefydliad gwrth-hiliol a chyflwynodd hyfforddiant gwell i staff.

## Dalfa'r heddlu



**Argraff o leoliadau dalfa'r heddlu yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, wedi'i gynrychioli yn ôl sir neu ardal gomisiynu. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 21**

Yng Ngogledd Iwerddon, er bod y canfyddiadau am drin y rhai dan glo a'u diogelwch yn gadarnhaol, nid oedd cyflymder y diwygio deddfwriaethol i sicrhau llety amgen i blant yn y ddalfa yn ddigon cyflym. Mae un person wedi marw yn dilyn cyfnod pan oedd yn cael ei gadw yn nalfar heddlu yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn adrodd, sy'n destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon. Mae gofal iechyd yn parhau i fod yn her. Yng Nghymru a Lloegr, mae triniaeth neu asesiad y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa ar gyfer eu trosglwyddo i'r ysbyty yn aml yn cael ei ohirio oherwydd nifer isel o ymarferwyr gofal iechyd sy'n ymdrin â nifer o ddalfeydd, galw mawr

am lwyth achosion, a materion yn gwreiddio mewn contractau newydd. Mae dalfa'r heddlu yng ngogledd ddwyrain yr Alban wedi wynebu achosion rheolaidd lle nad yw'r rhai sy'n y ddalfa yn cael mynediad at bresgripsiynau ac nad ydynt yn cael gwybod faint o amser y bydd yn ei gymryd i weld meddyg neu nyrs. Mae angen moderneiddio ystad dalfa'r heddlu, gyda 46% o faterion cynnal a chadw yn ymwneud â chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd bod toiledau wedi torri, gollyngiadau neu waliau wedi'u difrodi.

## Arsylwi ac asesu risg

Yn yr Alban, nid yw arsylwadau asesu risg yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd 42% o unigolion yn y ddalfa yn yr Alban wedi datgan gwendidau iechyd meddwl rhwng 2024 a 25, sy'n cyd-fynd yn fras â'r 43% o'r bobl dan glo a oedd wedi datgan eu bod yn agored i niwed o ran iechyd meddwl yn 2023-24. Mae Heddlu'r Alban yn cydweithio ag NHS 24 i roi cymorth iechyd meddwl pan fo angen i'r rhai sy'n cael eu cadw dan glo. Fodd bynnag, nid oes gwelliannau digonol wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag anghysondeb rhwng asesu risg ac arsylwadau yn dilyn argymhellion Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi yn yr Alban (HMICS). Roedd diffyg gwasanaeth iechyd yn peri pryder mewn rhai canolfannau cadw, felly gallai cyfran o'r nifer fawr o bobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau fynd drwy'r ddalfa a gadael heb unrhyw wasanaeth nac atgyfeiriad.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd plant ac oedolion agored i niwed a oedd yn cael eu harsylwi'n barhaus, weithiau'n cael eu gweld gan ymwelwyr â'r ddalfa fel rhai a oedd yn cael eu rhoi mewn gefynnau wrth aros am oedolyn priodol ar gyfer noethchwilio, sy'n awgrymu defnyddio ataliaeth mympwyol, a allai beri gofid i blant, y dylid ei defnyddio dim ond pan bennir ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur yn dilyn asesiad risg unigol. Cyhoeddwyd llythyr cenedlaethol gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cynghori mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r trefniadau hyn, ym mis Chwefror 2025 yn

dilyn camau gweithredu gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) a'r Rhwydwaith Cenedlaethol Oedolion Priodol.<sup>42</sup>

Canfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi er bod rhai heddluoedd yn llywodraethu ac yn goruchwylio gwasanaethau'r ddalffa yn dda, fod angen gwelliannau mewn rhai eraill. Er bod rhai heddluoedd yn casglu ac yn dadansoddi amrywiaeth dda o wybodaeth am berfformiad, nid yw pob heddlu'n defnyddio data'n effeithiol i ddeall a gwella perfformiad. Nid oedd llywodraethiant a chraffu ar ddefnyddio grym bob amser yn ddigon da, a gellid gwneud mwy yn gyffredinol, er bod prosesau sicrhau ansawdd da mewn rhai heddluoedd. Roedd rhai enghreifftiau da o ddata monitro ar amseroedd aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl, ond roedd angen i rai heddluoedd wneud mwy i ddeall canlyniadau i'r rhai dan glo. Gall y rhai sy'n y ddalffa orfod aros yn hir i gael eu hasesu a'u trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r cymorth yn y ddalffa yn dda ar y cyfan, gyda mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio. Mae heddluoedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch y rhai sy'n cael eu cadw ond nid dynt bob amser yn cwblhau asesiadau risg cyn-rhyddhau yn ddigon manwl i adlewyrchu'r holl risgiau y maent yn eu nodi. Mae rhai unigolion dan glo wedi wynebu oedi yn nalfar heddlu oherwydd problemau gyda chapasiti llysoedd. Er bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi canfod rhai enghreifftiau da o adolygiadau o gadw dan glo, canfu arolygwyr hefyd nad oedd heddluoedd bob amser yn cydymffurfio â PACE a'i godau ymarfer, a bod angen gwella safon y cofnodi. Yn gyffredinol, mae heddluoedd yn ystyried lles carcharorion yn ystod adolygiadau, gan gynnwys anghenion penodol plant.

Yng Ngogledd Iwerddon, roedd y rhai sydd dan glo'n fwy tebygol o gael eu rhoi ar y lefel arsylwi briodol, ond nid oedd asesiadau risg a chynlluniau gofal a gofnodwyd yn cynnwys dadansoddiad risg manwl ac nid oeddent yn nodi'r angen i ddeffro'r rhai

sy'n cael eu cadw a oedd o dan ddylanwad alcohol a chyffuriau. Mewn rhai cofnodion yn y ddalffa, nid oedd tystiolaeth ysgrifenedig bod y rhai sydd dan glo wedi cael eu deffro. Yn ogystal â hyn nid oedd asesiadau risg cyn rhyddhau yn cynnwys digon o fanylion na chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r holl risgiau a nodwyd. Roedd angen gwelliannau o ran asesu risg, cynllunio a chofnodi, gydag argymhellion wedi'u gwneud yn 2020 i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon ond yn cael eu cyflawni'n rhannol neu ddim o gwbl.

## Staffio a gofal iechyd

Bu i adolygiad dilynol gan Arolygiad Cyfiawnder Troseddol ac Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd arsylwi ar fanteision model gofal iechyd dan arweiniad nyrsys yn nalfar heddlu, gan nodi oedi wrth gyflwyno gofal iechyd cyson o ansawdd uchel dan arweiniad nyrsys ar draws pob dalffa. Yn y dalfeydd lle nad oedd darpariaeth dan arweiniad nyrsys, roedd heriau o ran sicrhau bod gwasanaeth Swyddog Meddygol Fforensig effeithiol yn cael ei ddarparu yn golygu na ellid darparu gofal iechyd yn y ddalffa yn gyson. Er gwaethaf pryderon staff y ddalffa am y risgiau i'r rhai sydd dan glo ac iddyn nhw eu hunain heb fynediad at ofal iechyd na meddygol effeithiol, ac uwchgyfeirio i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Grŵp Rheoli Risg Adrannol, ni fu llawer o gamau y gellid eu harsylwi i fynd i'r afael â'r risg, gan adael staff a'r rhai sydd dan glo yn agored i niwed.

Mewn rhai canolfannau cadw yn yr Alban, roedd diffyg staff dalffa fesul shift i ddiwallu anghenion y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth a hwyluso ymweliadau gan ymwelwyr â'r ddalffa annibynnol - gofyniad o dan OPCAT. Lle mae gan Ymwelwyr â Charchardai Annibynnol yr Alban fynediad, maent wedi gallu gweithio gyda Heddlu'r Alban ar gynigion i wella darpariaethau ar gyfer y sawl sydd dan glo. Er enghraifft, ar ôl tynnu sylw at y ffaith y gallai rhywfaint o ddeunydd darllen fod yn anhygyrch i'r rhai sy'n cael eu cadw dan glo â dyslecsia ac awtistiaeth, cynigiodd

42 **Parthed: Defnyddio gefynnau ar blant ac oedolion agored i niwed sy'n aros am oedolyn priodol ar gyfer noeth-chwilio - Chwefror 2025 - NPCC**

y Cynllun ddod o hyd i lyfrau penodol ar gyfer y darllenwyr hyn, sydd bellach yn cael eu defnyddio a'u rhoi i'r unigolion ar gais. Yn gynyddol, mae angen swyddogion plismona lleol i ôl-lenwi shifftiau, gan fod bylchau o fewn timau craidd y ddalfa ac yn aml mae gan staff ar ddyletswyddau wedi'u haddasu gyfyngiadau ar yr hyn y gallant ei wneud i gefnogi'r rhai sydd dan glo.

Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar forâl staff, sydd yn ei dro yn effeithio ar les y rhai sy'n cael eu cadw dan glo, yn enwedig mewn canolfannau mwy sydd â chyfleusterau arbenigol. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar urddas carcharorion.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd niferoedd isel o staff yn golygu nad oedd modd diwallu anghenion carcharorion bob amser, gan effeithio'n negyddol ar eu lles. Nid oedd digon o staff bob amser ychwaith i hwyluso ymweliadau annibynnol â'r ddalfa. Roedd problemau wrth wreiddio contractau gofal iechyd wedi arwain at ddarpariaeth gofal iechyd anghyson, ac roedd y galw mawr ar dimau prinder staff yn golygu na allai gofal iechyd fod yn rhagweithiol, ac roedd ceisiadau gan y rhai dan glo am asesiad neu driniaeth yn wynebu oedi.

## Plant

Nid yw celloedd yr heddlu yn lle addas i blant, yn enwedig dros nos, a gall arosiadau hir yn yr amgylcheddau hyn, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer oedolion, fod yn niweidiol.

Yng Ngogledd Iwerddon, er bod nifer y plant sy'n mynd i ddalfa'r heddlu wedi gostwng ers 2020, roedd oedi o hyd o ran cael Oedolyn Priodol ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi plant, a oedd yn golygu bod eu cynnydd drwy'r ddalfa yn arafach, bod rhyddhau'n digwydd yn ddiweddarach, a bod plant yn cael eu cadw dros nos. Fodd bynnag, gwelodd yr arolygwyr arferion da hefyd lle nad oedd sarsiantiaid yn y ddalfa yn awdurdodi eu cadw pan fyddai plant yn cael eu dwyn i'r ddalfa ac yn rhoi cyfarwyddiadau i osgoi rhoi

plant mewn cell neu wedi cyflymu'r broses ynghylch achosion plant. Yn 2020, gwnaeth yr Arolygiad Cyfiawnder Troseddol argymhellion i'r Adran Gyfiawnder i fynd ar drywydd diwygio deddfwriaethol i hwyluso hawl plant a phobl ifanc i Fechnïaeth, i ddarparu llety amgen i blant, a gwella gwybodaeth i swyddogion ar gadw plant a phobl ifanc yn y ddalfa. Nododd yr Arolygiad Cyfiawnder Troseddol gynnydd i'w groesawu wrth gyflwyno Bil Cyfiawnder 2024 ym mis Medi, i fynd i'r afael â threfniadau remand, mechnïaeth a chadw dan glo ar gyfer plant a phobl ifanc, ond mae'n dal yn bryderus am yr oedi wrth gyflawni trefniadau amgen.

Roedd Adroddiad Blynyddol 2023-24 Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn cyfeirio at argymhellion a wnaed yn adolygiad hawliau dynol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon yn 2023, ar noeth-chwilio plant yn nalfa'r heddlu. Yn dilyn yr argymhellion, roedd llai o noeth-chwiliadau o blant yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024, ac ychydig iawn a gynhaliwyd heb Oedolyn Priodol yn bresennol. Mae nifer o faterion a godwyd yn dal heb eu datrys, gan gynnwys tangofnodi sy'n golygu nad yw oedolion priodol bob amser yn bresennol pan ddylent fod yn bresennol.<sup>43</sup>

Yng Nghymru a Lloegr, nid oes gan bob heddlu brosesau effeithiol i flaenoriaethu'r gwaith o gofrestru plant nac i gefnogi eu hanghenion pan fyddant yn cyrraedd y ddalfa am y tro cyntaf. Er bod heddluoedd yn cysylltu ag awdurdodau lleol i ofyn am lety diogel i blant sy'n cael eu remandio yn y ddalfa dros nos, mae diffyg llety addas. Mae hon yn broblem genedlaethol. Yn Llundain, roedd y llety a oedd ar gael yn anaddas i blant gan ei fod yn rhy bell i ffwrdd, felly bydd plant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa bob amser yn aros dros nos mewn cell heddlu. Er bod heddluoedd yn gwneud ceisiadau i awdurdodau lleol, mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn dal i ganfod canlyniadau gwael i blant sy'n cael eu remandio i'r ddalfa oherwydd diffyg llety arall gan awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae plant sydd wedi'u cyhuddo o droseddau yn cael eu cadw dros

43 [Adolygiad o Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc a Phlismona - Rhagfyr 2024 - Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon](#)

nos fel mater o drefn yn nalfar heddli. Yn dilyn anhrefn gyhoeddus ynghylch gwrth-fewnfudo ym mis Gorffennaf a mis Awst 2024, cynhaliodd Comisiynydd Plant Lloegr adolygiad o brofiadau plant a dreuliodd amser yn y ddalfa ar ôl iddynt gymryd rhan. Dywedodd rhai plant eu bod wedi treulio rhwng 48 a 72 awr yn nalfar heddli, gyda llawer yn treulio o leiaf noson yno er mwyn ymddangos yn y llys y diwrnod canlynol. O'r ddau heddli a arolygwyd yn ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn, ni chafodd yr anhrefn effaith andwyol arnynt ym mis Gorffennaf a mis Awst 2024. Canfu Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi fod rhai heddliuodd yn ceisio blaenoriaethu'r gwaith o gofrestru yn ôl oedran, risg a ffactorau fyddai'n gwneud unigolyn yn agored i niwed, ond bod lle i wella.

Adroddodd corff Ymweld â Charchardai Annibynnol yr Alban bod Heddlu'r Alban yn parhau i geisio leihau nifer y plant sy'n cael eu cadw yn nalfar heddli. Cafodd 4,056 o blant eu cadw yn y ddalfa eleni, o'i gymharu â 4,083 y llynedd a 4,261 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dilyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Corffori) (Yr Alban) 2024, lle bydd darpariaethau yn Neddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2016 yn cael eu diwygio i sicrhau bod pob person ifanc dan 18 oed yn cael ei drin fel plentyn tra bydd yn nalfar heddli. Nid oedd y diwygiadau yn Neddf Plant (Gofal a Chyfiawnder) (Yr Alban) 2024 mewn grym yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, roedd ymwelwyr â'r ddalfa yn gweld plant yn cael gofal priodol, gyda staff yn cael gwybod yn briodol am anghenion lles plant yn nalfar heddli. Fodd bynnag, canfu arolygiadau diweddar o'r ddalfa gan Arolygiaeth Cwnstablaieth Ei Fawrhydi yn yr Alban a Healthcare Improvement Scotland fod achosion yn y ddalfa o blant yn cael eu cadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol gydag effeithiau niweidiol posibl iddynt. Roedd hyn yn aml yn ymwneud â phlant â phrofiad o ofal, lle'r oedd oedi cyn iddynt gael eu canfod gan staff gofal yn cyfrannu at yr amser estynedig a dreuliwyd yn y ddalfa.

## Effaith y Mecanwaith Atal Cenedlaethol: y menopos yn nalfar heddli

Yn 2024, lluniodd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ganllawiau ar amodau yn y ddalfa ar gyfer pobl sy'n mynd drwy'r menopos a'r perimenopos. Yn dilyn hyn cyhoeddodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol ganllawiau ar gyfer monitoriaid ac arolygwyr ym mhob man cadw i ystyried y menopos a'i effeithiau wrth graffu arnynt.


Ym mis Ebrill 2024, anfonodd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd arolwg at holl reolwyr cynlluniau ymweld â'r ddalfa ynghylch mabwysiadu'r llwybr atgyfeirio menopos newydd mewn dalfeydd.

Cyn i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu argymhell cyflwyno llwybr y menopos, dim ond 2 reolwr cynllun oedd yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer y rheini a oedd yn ymdopi â symptomau'r menopos. Dangosodd arolwg 2024 gynnydd mewn ymwybyddiaeth gyda 38% o swyddogion y ddalfa yn cael hyfforddiant, a 46% o ymatebwyr yn rhoi gwybod am newidiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad, gan gynnwys rhoi pecynnau'r menopos ar waith, hyfforddiant, ac un pwynt cyswllt ar gyfer y menopos. Cynigiwyd pecynnau wrth gyrraedd i unrhyw un sy'n cael ei gadw dan glo a allai fod eu hangen.

Cyflwynwyd diwygiadau i'r Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ym mis Mehefin 2024, gan gynnwys adran bwrpasol ar lwybr atgyfeirio'r menopos, lle dylid cynnig cyfle i bob menyw dros 40 oed sy'n cael ei chadw yn y ddalfa drafod symptomau'r perimenopos neu symptomau'r menopos a llunio cynllun gofal ar gyfer ei chyfnod yn y ddalfa. Gallai'r rhain gynnwys cymhorthion cof, ffaniau papur, neu fynediad at ddŵr, ymysg mesurau eraill.

Mae angen gwelliannau o hyd mewn rhai heddliuodd, ond bu cynnydd cyffredinol mewn ymwybyddiaeth o'r menopos a darpariaethau yn nalfar heddli.

## Trafnidiaeth a dalfa'r llys



**Argraff o leoliadau dalfeydd y llys yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, wedi'i gynrychioli yn ôl sir neu ardal gomisiynu. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 19**

Ni welodd yr arolygwyr na'r monitoriaid driniaeth nac amodau a oedd yn gyfystyr ag artaith, triniaeth greulon neu annynol na chosb yn nalfa'r llys. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn cael ei sicrhau gan adroddiadau o gefnogaeth staff a mentrau i leihau straen ymysg y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw ar y cyd i rwystrau rhag darparu safleoedd dalfa'r llys a gwasanaethau trafndiaeth sy'n ddiogel ac yn addas, yn enwedig lle gallai ariannu neu egluro contractau hwyluso gwaith trwsio. Dylai contractwyr trafndiaeth adolygu arferion ac amlinellu ble a sut i gwblhau'r rhain. Er na chynhaliodd Arolygiad Cyfiawnder Troseddol arolygiad o ddalfa'r llys yn ystod y flwyddyn adrodd, roedd amodau celloedd llys yng Ngogledd Iwerddon yn bryder.

Yng Nghymru a Lloegr, canfu arolygiadau o lysoedd a darparwyr hebrwng yng Ngorllewin Mercia a Swydd Stafford, Cymru, a Gorrlewin Canolbarth Lloegr a Swydd Warwick - pob ardal lle mae'r ddalfa llys a chcludant yn cael eu darparu gan GeoAmey - fod cludiant carcharorion i'r llys yn aml yn cael ei ohirio, oherwydd nifer y bobl sy'n mynd drwy lysoedd, prinder staff neu gerbydau dan gontract, pwysau poblogaeth mewn carchardai a phellteroedd rhwng y carchar a'r llys.

Mae diffyg staff trafndiaeth ar draws holl broses dalfa'r llys yn golygu bod staff presennol yn cael eu dargyfeirio o gludiant i'r ddalfa, ac nad oes digon o staff trafndiaeth i gyflenwi gwasanaeth dibynadwy. Mae hyn yn arwain at deithiau hir iawn (i gynnwys nifer o safleoedd) mewn amodau anghyfforddus. Mae oedi'n achosi gofid a gall ymestyn yr amser yn y ddalfa'n ddiangen, yn enwedig pan fyddant yn golygu na all y sawl sy'n cael ei gadw yno weld cyfreithiwr cyn ei apwyntiad llys na chyrraedd yn rhy hwyr i'w apwyntiad yn gyfan gwbl. Mae hyn yn tansailio eu hawl i gael cyngor cyfreithiol a threial teg. Mae carchardai bellach yn cynnig dewisiadau eraill fel cyswllt fideo, ac roedd defnyddio'r rhain i leihau trosglwyddiadau carcharorion ar gyfer gwrandawiadau llys wedi cynyddu 17% ers y flwyddyn flaenorol, yn ôl Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, anaml iawn y defnyddiwyd cysylltiadau fideo i'r rhai dan glo a oedd yn teithio o ddalfa'r heddlu. Gallai gwrandawiadau hefyd gael eu gohirio oherwydd paratoi anghyflawn, diffyg cynrychiolwyr cyfreithiol neu gyfieithwyr ar y pryd. Roedd diffyg cyfieithu ar y pryd yn digwydd amlaf mewn llysoedd remand, ar ddydd Sadwrn ac ar wyliau cyhoeddus. I'r sawl sydd dan glo, roedd yr oedi hwn yn golygu mwy o amser yn nalfa'r llys neu fwy o debygolrwydd o gael eu remandio yn y carchar. Roedd oedi wrth adael llysoedd yn golygu bod pobl yn cael eu cadw mewn faniau nad oeddent wedi'u cynllunio i gael eu cadw am gyfnod hir, mewn man anghyfforddus yn gorfforol a heb unrhyw beth i dynnu eu sylw. Efallai y bydd y rheini sy'n dychwelyd yn hwyr yn y nos i'r carchar hefyd yn colli allan ar bryd poeth neu gawod.

Ledled Cymru a Lloegr, canfu Carchar Ei Fawrhydi ac Arsyllwyr Lleyg fod menywod a phlant yn aml yn gorfod rhannu cerbydau â dynion sy'n oedolion, gyda sgriniau pared yn cynnig rhywfaint o ddiogelwch. Roedd achosion lle'r oedd menywod yn cael eu cludo yn yr un cerbyd â dynion a gyhuddwyd neu a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol neu drais yn erbyn menywod yn peri pryder arbennig. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd, yn enwedig mewn trafndiaeth o ddalfa'r heddlu, ac mae perygl y bydd menywod yn cael eu cam-drin yn eiriol, a menywod sydd wedi profi trais rhywiol neu drais ar sail rhywedd yn ail-fyw'r trawma. Nid oedd sgriniau gwahanu bob amser yn cael eu defnyddio, a beth bynnag nid ydynt yn blocio sain, tra bod eu presenoldeb yn dangos bod menyw neu blentyn yn teithio yn y cerbyd. Mae'r egwyddor o wahanu, a amlinellir mewn rheolau rhyngwladol a domestig, yn mynnu bod menywod yn cael eu cadw ar wahân i ddynion, bod plant yn cael eu cadw ar wahân i oedolion, a bod mewnfydwyr yn cael eu cadw ar wahân i'r rheini sy'n cael eu carcharu am droseddau.<sup>44</sup> Dylai unedau yn yr un cyfleuster fod yn gwbl ar wahân.<sup>45</sup> Dylid cludo plant mewn cerbydau heb gelloedd a'u cadw'n gwbl ar wahân i oedolion sydd dan glo er mwyn amddiffyn eu diogelwch, eu hurddas a'u llesiant.

Mae'r teithiau hir a'r amser aros hir i faniau lenwi yn her gorfforol nad oes modd ei hosgoi, ac nad yw wedi cael sylw urddasol. Nid yw'r rheini sydd yn y fan bob amser yn cael dod oddi arni mewn arosfannau i lysoedd eraill i ddefnyddio'r toiled ac maen nhw'n cael "bagiau hylif arbenigol" i'w defnyddio yng nghell eu fan. Nid oes dim i guddio synau, ac mae'r celloedd wedi'u gorchuddio gan deledu cylch cyfyng. Mae pobl sy'n cael eu cadw dan glo'n dweud eu bod yn teimlo'n anghyfforddus iawn, hynny yw, mewn poen, er mwyn osgoi gorfod defnyddio'r bagiau. Mae'r amseroedd aros

hefyd yn achosi risgiau ychwanegol i unigolion sy'n aros i gael meddyginiaeth, neu pan fydd angen dillad cynhesach neu system awyru.

Roedd defnyddio gefynnau yn rheolaidd mewn manau parcio cerbydau anniogel wrth symud unigolion sy'n cael eu cadw dan glo i adeiladau llys hefyd yn broblem ledled Cymru a Lloegr. Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur â risg unigol y dylid defnyddio ataliaeth. Fodd bynnag, adroddodd Arsyllwyr Lleyg yn aml am ddefnydd cyffredinol o gefynnau heb gyfeirio at amgylchiadau unigol, gan gynnwys ar fenywod beichiog a phlant. Yn hytrach na bod hynny o ganlyniad i gyfyngiadau ar adnoddau, canfu Arsyllwyr Lleyg fod hyn yn aml o ganlyniad i beidio ag ystyried urddas y rhai sy'n cael eu cadw. Weithiau roedd unigolion dan glo'n cael eu symud mewn gefynnau yng ngŵydd y cyhoedd, a oedd weithiau'n golygu bod fideos yn ymddangos ar gyfryngau cymdeithasol, gan danseilio eu hawliau i fywyd preifat a'r egwyddor o ddiniweidrwydd tybiedig.

Yn nalfa'r llys ei hun, roedd gwelliannau o ran diwallu anghenion y rhai sy'n cael eu cadw yno, gan gynnwys darpariaeth gwell o ran gweithgareddau tynnu sylw, er bod deunyddiau tynnu sylw yn gyfyngedig ac nad oeddent bob amser yn addas. Roedd staff y ddalfa yn cysuro ac yn gallu tawelu tensiwn. Dim ond fel dewis olaf y defnyddiwyd grym, a gwelodd yr arolygwyr fwy o gymesuredd wrth chwilio a defnyddio gefynnau.

Ychydig iawn o blant a oedd yn cael eu cadw yn nalfa'r llys, a phan oeddent yn cael eu trosglwyddo i lysoedd o leoliad diogel, roeddent fel arfer yn cael eu hebrwng gan staff a oedd wedi'u hyfforddi'n arbennig ac yn cael eu cadw mewn ystafelloedd ymgynghori cyfreithiol, yn hytrach na chelloedd. Fodd bynnag, roedd rhai plant yn cael eu cloi mewn celloedd yng Ngorllewin

44 Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol Erthygl 10; Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn Erthygl 37; Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau Ymfudwyr a'u Teuluoedd Erthygl 17; Rheolau Sylfaenol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion, Rheolau 11, 89, 93; Rheolau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Menywod a Mesurau Di-garchar i Fenywod, Rheolau 40, 41; Rheolau'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Amddiffyn Pobl Ifanc sydd wedi Hamddifadu o'u Rhyddid, Rheolau 27, 28, 29, 30; Rheolau Carchardai Ewrop 18, 34.5, 51, 52, 53.

45 **Gwahanu'r rhai sy'n cael eu cadw - Cymdeithas Atal Arteithio**

Canolbarth Lloegr a Swydd Warwick. Pan fydd plant yn cyrraedd dalfa'r llys o ddalfa'r heddlu, anaml iawn y bydd staff hyfforddedig yn dod gyda nhw, sy'n aml yn golygu eu bod yn cael eu rhoi mewn cell dan glo.

Rhy ychydig o leoliadau carcharu oedd yn gallu diwallu anghenion pobl â phroblemau symudedd neu anabledd, ac roedd unigolion ag anableddau corfforol neu anawsterau symudedd weithiau'n cael eu hanfon i lysoedd anhygyrch, lle nad oeddent yn gallu cael mynediad at yr apwyntiad llys yr oeddent wedi teithio iddo, weithiau'n bell. Roedd rhai adeiladau wedi dirywio, gyda chelloedd bach iawn prin yn addas i'w defnyddio. Roedd contractau cymhleth a dim digon o gyllid yn atal y gwaith trwsio angenrheidiol, yn ôl Arolygiaeth Carchardai EF.

Yn yr Alban, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS) adolygiad thematig o drafnidiaeth carcharorion: **"Planned Failure" – A Thematic Review of Prisoner Transport in Scotland.** Canfu'r adolygiad fod GeoAmey, y darparwr cludiant carcharorion, yn rhoi gwybod i Wasanaeth Carchardai'r Alban (SPS) yn aml nad ydynt yn gallu danfon hebryngwyr wedi'u trefnu i apwyntiadau ysbyty neu wrandawliadau llys. Disgrifiodd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban effaith y methiant hwn fel un annerbyniol, gyda channoedd o garcharorion yn colli apwyntiadau ysbyty pwysig, neu'n colli cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a fyddai'n cyfrannu at allu symud ymlaen i amodau agored.

Canfu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban fod glendid, graffiti a'r angen am drwsio strwythurol yn broblem mewn sawl uned dalfa'r llys, ond bod hawliau dynol yn cael eu hystyried yn weithredol gan staff. Mewn chwech o'r wyth arolygiad yn nalfa'r llys, prin oedd y mynediad, os o gwbl, at Uned Dalfa'r llys i bobl mewn cadeiriau olwyn neu gyda symudedd cyfyngedig ond roedd mynediad at seddi a thoiledau mewn manau eraill. Yn y rhan fwyaf, megis Llysoedd Siryf Ayr a Stranraer, roedd hyn oherwydd oedran yr adeiladau. Yn Llys Siryf a Llys Ynadon Ayr a Jedburgh, roedd hyn hefyd yn golygu nad

oedd toiledau i bobl anabl, ac yn Llysoedd Siryf a Llysoedd Ynadon Stranraer a Stornoway, dim ond mewn ardaloedd cyhoeddus neu drwyddynt yr oedd toiledau i bobl anabl.

## Plant ac oedolion ifanc



**Argraffiadau o lety diogel i blant yr ymwelwyd â nhw rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Cyfanswm y sefydliadau yr ymwelwyd â nhw: 21**

Mae cyflwyno deddfwriaeth a pholisi newydd wedi newid arferion o ran amddifadu o ryddid plant, ac mae Cartrefi Diogel i Blant, Gwasanaethau Llety Diogel, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc wedi addasu i ddarpariaethau newydd. Daeth Deddf Plant (Gofal a Chyfiawnder) (Yr Alban) 2024 â lleoliad pobl ifanc dan 18 oed i ben mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc ym mis Awst 2024, er nad yw'r opsiwn i bobl ifanc aros mewn lleoliadau diogel ar ôl eu pen-blwydd yn 18oed wedi cael ei roi ar waith eto. Yn Lloegr, arweiniodd adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef "Delivering the Best for Girls in Custody" at y penderfyniad i roi'r gorau i gadw merched mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc. Agorwyd Ysgol Ddiogel

Oasis Restore yn ystod y flwyddyn adrodd a chafodd ei chau dros dro yn fuan ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, ac nid oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer ailagor eto. Mae gan y Mecanwaith Atal Cenedlaethol bryderon parhaus am ddiogelu, yn enwedig yn y nifer cynyddol o gartrefi heb eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â hunan-niweidio, trais a threulio amser yn yr un ystafell mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Gwelodd Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr gynnydd pryderus mewn lefelau hunan-niweidio, trais a defnyddio arfau, gan danseilio eu gallu i adsefydlu plant. Treuliodd plant ormod o amser yn eu hystafelloedd heb lawer o weithgarwch neu gymdeithasu, yn enwedig i'r rhai a oedd wedi'u gwahanu oddi wrth eraill, ac a brofodd addysg wael ac wedi'i darfu.

## Arferion cyfyngol

Yn 2024, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal fwletin ystadegol ar arferion cyfyngol, er mwyn gwella tryloywder y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth yr Alban ar ei hymrwymiad i Gadw'r Addewid drwy leihau'r defnydd, a dileu camddefnydd, o ataliaeth mewn gofal plant yn yr Alban. Mewn Gwasanaethau Llety Diogel, sylwodd yr Arolygiaeth Gofal ar berthnasoedd cryf a thosturiol ac agwedd feddylgar at risg. Roedd dealltwriaeth dda o hawliau ac ymdrechion pobl ifanc i gefnogi pobl ifanc heb ddefnyddio ataliaeth yn lleihau'r tebygolrwydd o ataliaeth ac arferion cyfyngol. Roedd ymrwymiad nodedig i leihau ataliaeth, a chynnydd parhaus ar hynny, wedi'i lywio yng Ngwasanaeth Llety Diogel Rossie yn sgil dadansoddiad a myfyrdod manwl o ddigwyddiadau, a hyfforddiant staff rheolaidd. Fodd bynnag, yn St Mary's Kenmure, sylwodd yr Arolygiaeth Gofal ar lefelau uchel diangen o ataliaeth ac arferion cyfyngol, gan ganfod yn aml fod defnyddio ataliaeth yn anghymesur â lefel y risg. Effeithiodd hyn ar ddiogelwch corfforol ac emosynol plant ac adeiladodd ddiwylliant adweithiol a oedd yn dwysáu ataliaeth. Nid oedd unrhyw gofnod o ddysgu o ddigwyddiadau arwyddocaol, er bod rhai plant yn cael eu niweidio drwy ddefnyddio dulliau atal. Er bod staff eisiau amddiffyn pobl

ifanc, nid oedd ganddynt wybodaeth hanfodol i reoli risgiau a rhoi cymorth diogel, ac roedd eu gallu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn cael ei danseilio gan symud staff yn aml a newidiadau rota, yn ogystal â gorddibyniaeth ar staff asiantaeth. Er gwaethaf tosturi a chefnogaeth y staff, arweiniodd eu diffyg cynefino a'r ffaith eu bod yn anghyfarwydd â'r plant yn eu gofal at ymarfer anniogel.

Fis Mawrth 2024, roedd 11 o ferched mewn gwasanaethau diogel yng Nghymru a Lloegr, o'i gymharu â 519 o fechgyn. Mae diffyg model gwasanaeth penodol i ferched wedi golygu bod y canlyniadau i'r ychydig iawn o ferched yn y ddalfa yn wael. Fis Mawrth 2025, cyhoeddodd llywodraeth y DU y byddai'n rhoi'r gorau i leoli merched sy'n cael eu dedfrydu i garchar ieuencid mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr, yn dilyn yr adolygiad annibynnol, sef "Delivering the Best for Girls in Custody" ac yn dilyn sawl mis o beidio â lleoli merched yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi Wetherby.<sup>46</sup> Yn aml, roedd gan ferched broblemau iechyd corfforol a meddyliol cymhleth, ac roeddent yn treulio oriau hir dan glo yn eu celloedd oherwydd trefn ddyddiol anhyblyg. Roedd amllder a difrifoldeb yr hunan-niweidio sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwn yn y gell yn peri pryder mawr. Roedd dulliau atal yn cael eu defnyddio'n aml iawn - weithiau fwy nag unwaith yn yr un noson - ac roedd timau o ddynion yn unig wedi cael eu defnyddio i dynnu dillad merched dan ataliaeth i atal hunan-niweidio, a oedd yn amlwg yn drawmatig i'r merched. Mae'n dal yn bosibl rhoi merched mewn Cartrefi Diogel i Blant, Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill, a, nes y bydd yn cau dros dro, Ysgol Ddiogel newydd Oasis.

O ran arolygiadau Ofsted - o leiaf dau y flwyddyn - o Gartrefi Diogel i Blant yn Lloegr, gwelwyd arferion da gan mwyaf wrth ddefnyddio gofal sy'n seiliedig ar fagu perthynas. Gellid gwneud gwelliannau mewn sawl cartref wrth i reolwyr oruchwylio'r defnydd o rym a chywirdeb cofnodi. Lle nad oedd ymyriadau corfforol yn aml, roedd hyn

46 Nid yw'r Llywodraeth yn rhoi merched mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc mwyach - GOV.UK

oherwydd bod arweinwyr yn datblygu ac yn arwain arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac roedd gan staff berthynas dda iawn â phlant. Gwnaeth y plant gynnydd rhyfeddol yn Uned Ddiogel Swydd Lincoln. Sylwodd Ofsted ar ddiwylliant cynhwysol, cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cael ei arwain a'i foddelu gan arweinwyr a'i weithredu o ddydd i ddydd gan yr holl staff. Mae'r plant yn gallu trafod ac archwilio eu hunaniaeth ac mae ganddynt oedolyn y gallant ymddiried ynddo i siarad ag ef ac ymddiried ynddo. Mae'r plant yn chwarae rôl weithredol yn y cartref, sy'n eu dysgu i fod yn annibynnol a meithrin sgiliau ar gyfer bod yn oedolion. Mae'r holl staff yn eiriol yn gryf dros y plant, ac mae arweinwyr yn herio gwasanaethau eraill yn weithredol pan nad yw camau gweithredu a phenderfyniadau a gymerir er lles pennaf plant. Mae datblygiad proffesiynol staff yn gryfder ac mae'n cyd-fynd â dadansoddiad o anghenion sy'n sail i'r cymorth sydd ei angen arnynt i ddiwallu anghenion parhaus

plant. Mae'r model gofal sy'n ystyriol o drawma wedi'i wreiddio mewn ymarfer.

Yn Ymddiriedolaeth Oasis Restore, sef yr academi ddiogel gyntaf i bobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed, barnodd yr ymweliad monitro cyntaf â'r ddarpariaeth addysg ei bod yn gwneud cynnydd rhesymol. Roedd yr arolygiad llawn cyntaf yn barnu bod angen gwella pob maes er mwyn iddynt fod yn dda. Er bod arweinwyr yn hyfforddi staff ar arferion gorau ynghylch gwahanu unigol (lle mae plant dan glo ar eu pen eu hunain mewn ardal) a rheoli o'r neilltu (lle mae plant yn cael eu cloi mewn ardal, gyda staff yn bresennol), nid oedd y defnydd o'r mesurau hyn, er eu bod am gyfnodau cymharol fyr, yn cael ei gydnabod na'i gofnodi gan staff na rheolwyr ac felly nid oedd modd i uwch arweinwyr graffu arnynt. Ar y llaw arall, roedd tawelu mewn modd sensitif yn golygu bod unrhyw ataliaeth gorfforol yn gymesur, a bod plant bob amser yn cael eu gweld wedyn gan staff gofal iechyd. Cynhaliwyd sesiynau adborth



gyda phlant a staff, a oedd yn ystyried sut y gellid osgoi ailadrodd digwyddiadau ac unrhyw feysydd datblygu ar gyfer staff.

Canfu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Ofsted ac arolygwyr y Comisiwn Ansawdd Gofal fod y Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc sy'n cael eu harolygu, eu hadolygu a'u monitro yn broblemus yn sgil trais, addysg gyfyngedig, perthynas wael â staff a rhestrau cadw ar wahân nad oes modd eu rheoli. Roedd lefelau uchel o drais yn amharu ar fynediad at addysg a gweithgareddau. Roedd hyn wedi gwella ar ôl arolygiadau yn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc Ei Fawrhydi y Parc a Wetherby.

Yng Ngholeg Diogel Hydebank Wood yng Ngogledd Iwerddon, sy'n cadw dynion ifanc rhwng 18 a 21 oed, canfu arolygwyr fod y canlyniadau'n dda ym mhob un o'r pedwar maes arolygu (diogelwch, parch, gweithgareddau pwrpasol, paratoi ar gyfer rhyddhau). Roedd dull gweithredu ar draws y carchar ar gyfer ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a niwroamrywiaeth, amser da allan o'r gell ac argaeledd amrywiaeth eang o ymyriadau, digwyddiadau a gweithgareddau, yn ogystal â gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar ddewisiadau cadarnhaol ac adsefydlu. Roedd y defnydd o rym yn is nag yn yr arolygiad diwethaf, er bod angen cryfhau'r trefniadau llywodraethiant. Roedd yr amgylchedd gwahanu wedi gwella, roedd y gofal i garcharorion mewn argyfwng yn dda, ac roedd y lefelau o hunan-niweidio yn is nag mewn sefydliadau tebyg.

## Ynysu gormodol

Yn Lloegr, cyflwynodd Ofsted hysbysiad cydymffurfio ar un cartref diogel i blant a chododd argymhelliad yn yr arolygiad o'r Ganolfan Hyfforddi Diogel ynghylch defnydd parhaus amhriodol o gloi plant mewn ardaloedd neu eu hystafelloedd ar ôl i'r meini prawf cyfreithiol ar gyfer gweithredu o'r fath ddod i ben. Gwnaed gwelliannau'n gyflym.

Roedd pob Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn llawn trais ac anhrefn a darpariaeth addysg wan, gyda safleoedd yn gaeth mewn cylch o wrthdaro ac ynysu, gyda phlant yn cael eu cloi yn eu celloedd am amser hir, gan arwain at fwy o rwystredigaeth a thrais.<sup>47</sup> Roedd y canlyniadau i blant wedi gostwng a dim ond Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Ei Fawrhydi y Parc oedd yn cael ei ystyried yn ddiogel. Nid oedd yr un Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn darparu addysg ddigon da. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fod Cookham Wood wedi cael ei droi'n garchar i oedolion am na allai gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol yn ddigon cyflym.<sup>48</sup>

Adolygodd Arolygiaeth Carchardai EF y drefn o wahanu plant mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc ym mis Hydref 2024. Roedd y defnydd o wahanu unigol yn dal yn uchel iawn. Gyda phoblogaeth gyfartalog o 440 o blant a phobl ifanc, roedd 1,038 o achosion o wahanu'n cynnwys 480 o blant. Adroddodd 64% o blant eu bod wedi cael eu cloi neu eu hatal rhag cymysgu â phlant eraill fel cosb. Roedd 179 o achosion yn cynnwys plentyn yn cael ei wahanu am gyfnod rhwng 21 a 100 diwrnod, a 21 o blant yn cael eu gwahanu am dros 100 diwrnod.

Roedd yr Arolygiaeth Gofal yn canolbwyntio'n agos ar sut mae gwasanaethau llety diogel yn yr Alban yn cynnal ac yn hyrwyddo diogelwch a hawliau pobl ifanc lle mae neilltuaeth yn cael ei ddefnyddio. Yng Ngwasanaethau Llety Diogel Rossie, canfu'r Arolygiaeth Gofal fod cefnogaeth i hawliau a llesiant pobl ifanc yn dda iawn. Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda o neilltuaeth ac, yn bwysicach fyth, strategaethau rhagweithiol y gellid eu defnyddio i'w atal.

## Diffyg llety priodol

Roedd cyfran y plant a oedd yn cael eu cadw ar remand oherwydd diffyg llety arall, yn enwedig plant sy'n derbyn gofal, yn bryder allweddol yng Ngogledd Iwerddon. Canolfan

47 [Plant yn y ddalfa 2023-24 Dadansoddiad o ganfyddiadau pobl ifanc rhwng 12 ac 18 oed o'u profiadau mewn canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwy'r ifanc - Tachwedd 2024 - Arolygiaeth Carchardai EF](#)

48 [Ail-bwrpasu sefydliad troseddwy'r ifanc - Mawrth 2024 - Gov.uk](#)

Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands yw'r unig lety sydd ar gael o hyd pan fydd Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dweud nad oes unrhyw lety arall ar gael i blant yn eu gofal. Mae hyn, ynghyd ag elfennau ymarferol fel amser arestio a'r pellter teithio, wedi arwain at blant yn cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu dros nos o dan PACE ac mae trosglwyddiadau rhwng Canolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands a Chanolfan Gofal Diogel Lakewood yn gyffredin. Er bod y Llys wedi caniatáu mechnïaeth i blant, mae eu rhyddhau'n aml yn cael ei ohirio hyd nes y deuir o hyd i gyfeiriad addas. Felly, mae angen dybryd o hyd i ddatblygu opsiynau llety eraill. Yn y cyfamser, mae gorboblogi a phwysau mewn lleoliadau cleifion mewnol CAMHS yng Ngogledd Iwerddon wedi arwain at letya pobl ifanc dan 18 oed mewn wardiau oedolion, sydd eisoes dan bwysau.

Yng Nghymru a Lloegr, mae Cartrefi Diogel i Blant yn dda iawn am ddatblygu perthynas gadarnhaol â phlant yn gyflym, gan fynd i'r afael â'r rhesymau pam mae plant wedi cael eu rhoi mewn gofal diogel a pharatoi plant ar gyfer eu camau nesaf. Fodd bynnag, nid oes digon o welyau neu leoliadau iechyd meddwl sy'n gallu diwallu anghenion plant sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, ac mae hyn yn arwain at oedi cyn rhyddhau o ofal diogel. Gall plant gael eu rhoi mewn darpariaethau nad ydynt yn addas neu nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion a gallant gael eu rhoi yn ôl mewn darpariaeth ddiogel yn y pen draw. Mae Ofsted hefyd yn ymwybodol o arolygiadau bod rhai awdurdodau cyfrifol ar gyfer plant sy'n gadael gofal diogel yn cynllunio'n wael, a bod prinder lleoedd priodol ar gyfer y plant hyn. Mae hyn yn golygu nad yw rhai plant yn gwybod i ble maen nhw'n symud yn ystod yr wythnosau ac weithiau'r diwrnodau cyn iddyn nhw symud ymlaen, sy'n achosi pryder a gofid iddyn nhw. Mae'r ffaith nad oes llawer o leoliadau ar gael yn golygu bod plant weithiau'n mynd i fannau lle nad oes modd diwallu eu hanghenion bob amser. Mae lleoliadau wedyn yn chwalu ac weithiau maen nhw'n mynd yn ôl i ofal diogel. Nid yw'r sefyllfa hon wedi gwella ers adroddiad blynyddol diwethaf y Mecanwaith Atal Cenedlaethol.

## Cartrefi plant heb eu cofrestru

Fis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Ofsted ddatansoddiad newydd o'r cynnydd pryderus mewn cartrefi plant heb eu cofrestru yn Lloegr. Ymchwiliodd Ofsted i fwy na 1,000 o achosion o leoliadau posibl heb eu cofrestru, gan ddod o hyd i 900 heb eu cofrestru, o'i gymharu â 700 yn 2023. Roedd 12% o blant mewn cartrefi heb eu cofrestru yn destun gorchymyn Amddifadu o Ryddid. Mae cartrefi heb eu cofrestru yn anghyfreithlon, ac nid oes ganddynt fecanweithiau diogelu a chraffu ar gyfer cartrefi sydd wedi'u cofrestru gydag Ofsted, gan gynnwys arolygiadau blynyddol ac ymweliadau misol gan unigolyn annibynnol i sicrhau bod plant yn cael gofal da a'u bod yn ddiogel. Mae plant yn cael eu rhoi yn y lleoliadau hyn gan awdurdodau lleol oherwydd yn aml nid oes dewis arall pan fydd angen lleoliad ac mae anghenion y plentyn yn sylweddol ac yn gymhleth.

Fel arfer, bydd plant yn cael eu lleoli ar eu pen eu hunain, gan eu hynysu a'u gadael heb arolygiaeth a/neu oruchwyliaeth reoleiddiol. Nid yw'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn cael hysbysiadau pan fydd plant yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid o dan Ddeddf Plant 1989 nac awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Mae hyn yn golygu nad oes gan y Comisiwn fynediad at ddata fel niferoedd cywir, lleoliadau nac amodau a osodir gan y llysoedd, hyd yn oed os yw'r plant hyn yn derbyn gweithgareddau a reoleiddir gan y Comisiwn. Yng Nghymru, nid yw plant mewn cartrefi heb eu cofrestru yn elwa o oruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Cymru o arolygiad ffurfiol gan eu bod y tu allan i gylch gwaith rheoleiddio'r Arolygiaeth. Fodd bynnag, gofynnir am sicrwydd diogelwch gan awdurdodau lleol ac mae'r Arolygiaeth yn ystyried ei bwerau gorfodi pan fo angen.

# Argymhellion



## Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith, Erthygl 19 (a)

Caiff y mecanweithiau atal cenedlaethol y pŵer canlynol o leiaf:

- (b) **Gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau'r bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ac atal artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall, gan ystyried normau perthnasol y Cenhedloedd Unedig;**

Mae Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn gwneud argymhellion o dan wahanol fformatau. Yn ystod arolygiadau unigol ac ymweliadau monitro, bydd cyrff y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn trafod pryderon allweddol a meysydd i'w gwella'n uniongyrchol â'r sefydliad, a fydd wedyn yn ymddangos yn adroddiad yr arolygiad, adroddiadau thematig neu adroddiadau blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys argymhellion i adran neu weinyddiaeth berthnasol y llywodraeth. Gall y Mecanwaith Atal Cenedlaethol hefyd wneud argymhellion drwy ei gyhoeddiadau, ei sesiynau briffio a'i adnoddau hyfforddi a gyhoeddir drwy gydol y flwyddyn, a gynrychiolir gan ei dîm cydlynu canolog, gan Is-grwpiau Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â chan gyrrff y Mecanwaith Atal Cenedlaethol unigol, mewn tystiolaeth a wneir i adolygiadau ac ymchwiliadau'r llywodraeth.


Dros 50,000 o ymweliadau, gwneir miloedd o argymhellion unigol i sefydliadau, awdurdodau cenedlaethol (er enghraifft, gwasanaethau carchardai pob gwlad) ac i'r llywodraeth. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar weithgarwch y Mecanwaith Atal Cenedlaethol ar y cyd ac ar ymgysylltu ag adolygiadau ac ymchwiliadau'r llywodraeth, i adlewyrchu pryderon systemig a ledled y DU ac argymhellion ar gyfer gwella.

## Dangosfwrdd adrodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol

Fis Awst 2025, lansiodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU y dangosfwrdd adrodd cyntaf erioed, gan gofnodi'r holl adroddiadau, argymhellion ac arferion da gan bob un o'r 21 Corff Mecanwaith Atal Cenedlaethol. Wrth gwrs, mae gwerth argymhellion yn ymateb deiliaid dyletswyddau iddynt ac wrth eu rhoi ar waith. Mae'r dangosfwrdd yn cynrychioli cam cyntaf tuag at fynd i'r afael â phryderon am ddiffyg ymateb i lawer o argymhellion, drwy eu cofnodi'n systematig mewn un lleoliad. Yn y dyfodol, mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn bwriadu datblygu swyddogaethau i dynnu sylw at ble mae argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU dros 50,000 o ymweliadau gyda'i gilydd, a chyhoeddodd gyfanswm o 3,882 o argymhellion mewn 296 o adroddiadau cyhoeddus. Gwnaed y rhan fwyaf o argymhellion yn uniongyrchol i'r man amddifadu o ryddid (2,779), gyda 733 yn cael eu gwneud i awdurdodau cenedlaethol a 370 yn cael eu gwneud i lywodraethau'r DU neu lywodraethau cenedlaethol. Cafodd 715 o enghreifftiau o arferion da eu cofnodi.


### Argymhellion fesul targed



Rhennir argymhellion yn ôl categori, ac ym mhob categori ceir rhagor o fanylion am yr hyn y mae argymhelliad yn ymwneud ag ef. Er enghraifft, o fewn "rheolaeth, goruchwyliaeth a gweithdrefnau", sef y categori argymhelliad mwyaf cyffredin - gyda 940 wedi'u gwneud ar draws holl gyrff y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol, mae 413 o'r argymhellion yn ymwneud â "llywodraethu", sef y ffordd mae sefydliad yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Dyma'r categorïau argymhellion mwyaf cyffredin a wnaed rhwng 2024-2025:

- Rheoli, goruchwyllo a gweithdrefnau
- Amodau a'r amgylchedd
- Diogelwch
- Triniaeth


### Argymhellion yn ôl categori




- Rheoli, goruchwyllo a gweithdrefnau: 940
- Amodau a'r amgylchedd: 536
- Diogelwch a diogeledd: 509
- Triniaeth: 447
- Addysg a gweithgareddau pwrpasol: 410
- Staffio: 380
- Gofal iechyd: 320
- Data: 295
- Iechyd meddwl: 220
- Amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant: 185
- Cynnydd ac adsefydlu: 181
- Trefn bob dydd a phrofiad yn y ddalfa: 167
- Cysylltiad cymdeithasol: 141
- Trosoglwyddo a hebrwng: 102

Gwnaed 380 o argymhellion yn benodol ynghylch staffio neu hyfforddiant staff, a oedd yn parhau i fod yn fater hollbwysig ar draws gwahanol leoliadau gan fod recriwtio, cadw a hyfforddi staff wedi bod yn heriol, gan beryglu meysydd eraill bywydau'r rhai sy'n cael eu cadw ac, mewn rhai achosion, eu diogelwch.

### Cyfanswm yr argymhellion fesul gwlad



### Cyfanswm yr argymhellion fesul lleoliad




- Carchardai: 2,196
- Dalfa'r heddlu: 327
- Cartrefi diogel i blant: 222
- Cadw mewn fudwyr: 206
- Arall: 91
- Unedau Iechyd meddwl diogel: 69
- Dalfa'r llys: 43

### Arferion Da: Gwybodaeth o 2024-25

Mandad craidd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yw nodi ac atal artaith a thrin pobl yn wael mewn mannau lle mae amddifadu o ryddid yn bodoli. Un ffordd ystyrllon o wneud hyn yw tynnu sylw a rhannu enghreifftiau o arferion da a welwyd yn yr ymweliadau craffu y mae cyrff y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn eu cynnal ar draws pob lleoliad cadw, er mwyn nodi ac efelychu'r hyn sy'n gweithio'n dda. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o themâu arferion da sy'n dod i'r amlwg ar draws yr holl leoliadau cadw a arolygwyd neu a gafodd eu monitro yn y DU rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn annog awdurdodau i ddefnyddio arferion da yn well er mwyn caniatáu i welliannau ddod yn systemig.

### Cyfanswm yr argymhellion yn ôl math o argymhelliad




- Argymhelliad: 3,167
- Arferion da: 715

Siart gylch yn dangos cyfanswm nifer yr argymhellion ac arferion da o'r cyfnod adrodd.

O'r 3,882 o gofnodion a gasglwyd yn ystod y cyfnod adrodd, mae 715 o'r rhain yn gofnodion o arferion da. Y tagiau mwyaf cyffredin yn y cofnodion hyn yw **Cymorth Ilesiant, Perthnasoedd staff/carcharorion a Hyfforddi a goruchwyllo staff.**

### Cyfanswm adroddiadau yn ôl tag



Y prif dagiau o gofnodion arferion da yn ystod y cyfnod adrodd.



## Cymorth llesiant:

Mae Prosiect Hamlet yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar EF Drake Hall, y cyfleuster cyntaf o'i fath yn ystad y menywod, yn rhoi cymorth ychwanegol i fenywod sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu'n llawn â'r gweithgareddau sydd ar gael cyn cael eu rhyddhau neu a allai ei chael hi'n anodd uniaethu'n gadarnhaol â chyfoedion. Mae tîm staff ymroddedig yn rhoi cymorth wedi'i deilwra.

Mae staff y ddalfa yn heddlu Gwent yn dangos lefel dda o ofal tuag at blant, gan gynnig bwyd a diod yn rheolaidd, yn ogystal â deunyddiau i dynnu sylw'r rhai a allai elwa ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys teclynnau Game Boy, troellwyr gwingo a pheli sbwng. Gall plant dreulio amser y tu allan i'w cell yn yr iard ymarfer, a gellir trefnu ymweliadau gan aelodau o'r teulu.

Yng Ngharchar a Choleg Diogel Menywod Hydebank Wood, mae amrywiaeth o ymyriadau a chyfleoedd ymgysylltu'n cael eu hwyluso, gan gynnwys therapi anifeiliaid trawiadol a sesiynau un-i-un rheolaidd neu weithgareddau gwaith grŵp fel celf a chrefft. Mae cornel feddylgar a chlyd wedi cael ei chreu i gynnig lle diogel i roi'r cymorth hwn.

## Perthynas staff/y sawl sydd yn y ddalfa:

Mae perthnasoedd yn broffesiynol yn Unedau Dalfa Cymunedol Canolfan Bella, gyda ffocws ar yr unigolyn sy'n cydnabod pobl fel unigolion sy'n cael eu hannog a'u cefnogi i fod yn rhan o gynlluniau ar gyfer eu dyfodol, ac sy'n cael gwybod am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Yn Ysbyty Rampton, mae pob claf yn dweud bod y staff yn barchus, yn amyneddgar, yn garedig ac yn gwybod beth maen nhw'n ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Mae staff hefyd yn disgrifio cleifion mewn ffordd gadarnhaol, ac yn gwybod am eu cryfderau unigol a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, gan weithio gyda chleifion i ddatblygu cynlluniau cymorth.

## Hyfforddiant a datblygiad staff:

Yn nhim plismona Argyll a Swydd Dumbarton, mae cyfleoedd hyfforddi ar gael i sicrhau cymwyseddau staff, gan gynnwys mynediad at gymorth cyntaf iechyd meddwl, hyfforddiant sgiliau mewn hunan-niweidio, ymyrryd ac atal hunanladdiad.

Roedd Carchar EF Caerdydd yn safle peilot ar gyfer prosiect a ariennir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF i ddarparu goruchwyliaeth strwythuredig gan gymheiriaid i swyddogion rheng flaen. Nod hyn yw cefnogi llesiant a chynyddu hyder swyddogion wrth ddelio â charcharorion. Siaradodd y rhai a gymerodd ran yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad ychwanegol.

Yng Ngwasanaethau Llety Diogel Rossie, mae datblygiadau uchelgeisiol wedi cael eu gwneud i gefnogi'r gwaith o leihau arferion cyfyngol, ar sail dadansoddiad manwl, myfyrio ar ddigwyddiadau a hyfforddiant rheolaidd.

## Sylwadau i gloi:

Er bod pob lleoliad yn gweithredu mewn cyd-destunau cyfreithiol a gweithredol penodol, mae'r themâu hyn sy'n codi dro ar ôl tro yn tynnu sylw at sut gall rhyngweithio parchus a staff medrus a chefnogol greu amgylcheddau mwy diogel ac urddasol.


Mae cynnwys arferion da mewn adroddiadau arolygu a monitro yn adlewyrchu pwyslais cynyddol ar wella a dysgu ar y cyd ar draws lleoliadau cadw.

## Adolygiadau ac ymchwiliadau'r llywodraeth

Dros y flwyddyn, ymatebodd tîm canolog y Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) a sefydliad NPM i amrywiaeth o ymgynghoriadau ac adolygiadau polisi, gan wneud argymhellion i bwyllgorau'r llywodraeth, adolygiadau annibynnol, a Grwpiau Seneddol Hollbleidiol. Roedd y rhain yn amlinellu meysydd y mae problemau parhaus yn effeithio arnynt – er enghraifft, capasiti'r ystâd carchardai – ac yn amlinellu'r hyn y dylid ei wneud i fynd i'r afael â phwysau mewn modd ystyrlon.

### Mai 2024

Yr Arolygiaeth Gofal a Chomisiwn Lles Meddwl yr Alban (MWCS) yn gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Corfforiad) (Yr Alban) 2024: Canllawiau Statudol ar Ran 2 a Rhan 3, Adran 18.



### Medi 2024


Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus am wasanaethau Dehongli a Chyfieithu ar y Pryd yn y Llysoedd.



### Hydref 2024

Yr Arolygiaeth Gofal ac MWCS yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar y Ddeddf (Diwygio) Oedolion ag Analluedd.

Yr Arolygiaeth Gofal yn gwneud cyflwyniad ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ynghylch "symud ymlaen" o fod mewn gofal i fod yn oedolyn.



### Tachwedd 2024

HMIP yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Fynd i'r Afael â Digartrefedd.



## Rhagfyr 2024

Y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar gynllun 10 mlynedd y GIG.



## Ionawr 2025

HMIP yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r canlynol:

- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gapasiti'r ystâd carchardai.
- Ymchwiliad ôl-groniad Llysoedd y Goron.
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i Adsefydlu ac Ailsefydlu: dod â'r cylch aildroseddu i ben.
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref i Ddiwylliant Carchardai: llywodraethiant, arweinyddiaeth a staffio (mae HMIP yn darparu tystiolaeth lafar yn ddiweddarach).
- Yr Arolwg Dedfrydu Annibynnol

IMB yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r canlynol:

- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i fynd i'r afael â chyffuriau yn y carchar.
- Yr Arolwg Dedfrydu Annibynnol.
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref i ddiwylliant carchardai: llywodraethiant, arweinyddiaeth a staffio.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig i'r Arolwg Dedfrydu Annibynnol.

Yr Arolygiaeth Gofal yn gwneud cyflwyniad ysgrifenedig i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar ddatblygu diffiniad cyffredinol o'r "profiad o ofal".

Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd mewn gweithdai i symud y Strategaeth Iechyd Meddwl Ranbarthol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn ei blaen. Wedi trafod darparu gwasanaethau iechyd meddwl, pennu blaenoriaethau a chysoni mentrau strategol.



### Chwefror 2025

Yr Arolygiaeth Gofal yn gwneud cyflwyniad ysgrifenedig i Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth yr Alban.

Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) yn gwneud cyflwyniad ysgrifenedig i Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth yr Alban.

HMIP yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i fynd i'r afael â chyffuriau yn y carchar, ac yn rhoi tystiolaeth lafar yn ddiweddarach.

IMB yn rhoi tystiolaeth lafar fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i fynd i'r afael â chyffuriau yn y carchar.



### Parhaus

Yr Arolygiaeth Gofal ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIPS) yn rhoi mewnbwn ynghylch rhoi'r gorau i leoli pobl ifanc dan 18 oed mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc dan ddarpariaethau Deddf Plant (Gofal a Chyfiawnder) (Yr Alban) 2024.

Ymgynghoriad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar weithredoedd atal, i gefnogi cychwyniad Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon).

Yn Lloegr, daeth Rheoliad 9a o Reoliadau 2014 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Rheoledig) i rym ym mis Ebrill 2024. Mae hyn wedi sicrhau bod pobl sy'n aros mewn cartref gofal, ysbyty neu hosbis yn gallu cael ymweliadau gan bobl maen nhw'n dymuno eu gweld; nad yw pobl sy'n byw mewn cartref gofal yn cael eu hannog i beidio â derbyn ymweliadau o'r tu allan; a bod aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr yn gallu mynd gyda phobl i apwyntiadau. Cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) adolygiad o Reoliad 9A ym mis Ionawr 2025, ac mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi bod yn rhan fawr o hyn drwy gydol y broses.


### Mawrth 2025


HMIP yn cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i Garchardai, Profiannaeth, ac Adsefydlu yng Nghymru.

HMIP yn cyflwyno adroddiad thematig 'Time to Care' i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar fenywod sy'n gysylltiedig â'r system gyfiawnder.

HMIP yn cyflwyno canfyddiadau i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gadw mewnfudwyr.

IMB yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Garchardai, y Profiannaeth, ac Adsefydlu yng Nghymru.





Medical and other

## Argymhellion Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU

### Mehafin 2024: cyhoeddi Canllawiau atal y Mecanwaith Atal Cenedlaethol

Cyhoeddodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol ddau lawlyfr manwl a hygyrch ar gyfer arolygwyr a monitoriaid, ac arweinwyr a rheolwyr, ar ddulliau atal a nodweddion gweithgareddau arolygu a monitro. Mae canllaw Atal y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn nodi pum ffactor risg: Diwylliant sefydliadol yn yr amgylchedd cadw, polisiau a gweithdrefnau sy'n gweithredu yn y sefydliad cadw, nodweddion a phrofiadau bywyd, arferion ac adegau. Mae'r canllawiau wedi cyfrannu at waith parhaus ar becyn hyfforddi ar gyfer holl sefydliadau gwirfoddol y Mecanwaith Atal Cenedlaethol, sy'n cael ei ddarparu yn 2025-26.

### Hydref 2024: Cyhoeddi pecyn cymorth y Menopos y Mecanwaith Atal Cenedlaethol

Mae pecyn cymorth y menopos yn cefnogi arolygwyr y Mecanwaith Atal Cenedlaethol, monitoriaid ac ymwelwyr ym mhob lleoliad amddifadu o ryddid i fonitro ffactorau risg ac effeithiau'r perimenopos, y menopos a'r cyfnod ar ôl y menopos. Mae'n cynnwys dogfen ganllaw a fideo hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys safonau hawliau dynol a rheolau cadw rhyngwladol i amlinellu disgwyliadau sylfaenol i sefydliadau eu bodloni wrth gefnogi pobl sy'n profi symptomau'r perimenopos a'r menopos.

### Hydref 2024: Y Safon a Argymhellir gan y Mecanwaith Atal Cenedlaethol ar olrhain amseroedd aros am welyau mewn lleoliadau iechyd meddwl

Cyhoeddodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU safon a argymhellir ar fonitro'r amser a gymerir i gwblhau trosglwyddiadau o garchardai i leoliadau iechyd meddwl diogel. Ysgogodd yr argymhelliad waith wedi'i dargedu gyda Llywodraeth yr Alban gan Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban, a chyda lleoliadau cadw ac Ombwdsmyrn yng Ngogledd Iwerddon gan Is-grŵp NPM Gogledd Iwerddon.

### Tachwedd 2024: Diffiniad y Mecanwaith Atal Cenedlaethol o amddifadu o ryddid

Yn 2024, cyhoeddodd Is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Atal Arteithio ei Sylw Cyffredinol cyntaf ar Erthygl 4 OPCAT, sef manau amddifadu o ryddid.<sup>49</sup> Ym mis Tachwedd 2024, cytunodd Grŵp Llywio Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU ar ddiffiniad o amddifadu o ryddid fel a ganlyn:

**Caethiwo unigolyn yn gorfforol, yn gyfreithiol neu'n weinyddol gan neu gyda gwybodaeth am wladwriaeth neu awdurdod dirprwyedig i leoliad neu ardal benodol, nad yw'n gallu gadael o'i wirfodd.**

Gall cyrff y Mecanwaith Atal Cenedlaethol ddefnyddio'r diffiniad i lywio dulliau o fonitro ac arolygu, ac argymhell bod llywodraethau neu sefydliadau'n hwyluso mynediad.

49 [CAT/OP/GC/1: Sylw cyffredinol Rhif 1 \(2024\) ar erthygl 4 o'r Protocol Dewisol \(manau amddifadu o ryddid\) - OHCHR](#)

## Ionawr 2025: cyflwyniad i'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol

Roedd cyflwyniad y Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU i'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol yn amlinellu pryderon am arferion dedfrydu cyfoes, gan annog yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol i ystyried effaith chwyddiant dedfrydau, gorboblogi, llai o adnoddau ariannol a staffio, oedi cyn cynnal a chadw, ar swyddogaeth adsefydlu carchardai. Pwysleisiodd y cyflwyniad y canlynol:

**Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn nodi na fydd edrych ar fater gorlenwi o safbwynt gofod yn unig (sef peidio ag ystyried argymhelliad y Pwyllgor ar bolisi ac ymarfer dedfrydu) yn datrys y broblem. Nid dim ond nifer y bobl mewn gofod sy'n effeithio ar orlenwi; mae ansawdd ffisegol y gofod hwnnw, gallu staff i'w cefnogi a pharodrwydd ar gyfer anghenion cynyddol gymhleth unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, i gyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr hawl nid yn unig yn cael ei gwireddu i fod yn rhydd o driniaeth wael, ond holl elfennau'r hawliau fel hawliau i breifatrwydd, i safon ddigonol o iechyd, ac urddas sylfaenol pobl.**

- Byddai gostyngiad ym mhoblogaeth carchardai yn caniatáu i gyfleusterau gael eu cau mewn cylchdro i'w trwsio a'u hadnewyddu, gan alluogi'r DU i sicrhau safon byw urddasol i garcharorion ac i gynnig gwasanaeth adsefydlu gweithredol.
- Wrth fynd i'r afael â gostyngiad cynaliadwy ym mhoblogaeth y carchardai, dylai'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ystyried carfannau sydd angen lleoliad therapiwtig i hwyluso eu proses adsefydlu, ac ni fydd carchar byth yn lleoliad priodol ar eu cyfer.
- Mae poblogaeth lai yn rhoi mwy o amser i staff ymgysylltu â charcharorion cymhleth a fydd yn caniatáu i'r DU gyflawni safon y cymorth unigol yn well.

- Mae'r arferion dedfrydu a'r hydoedd presennol yn golygu nad oes digon o staff cymwys i gyflawni'r drefn bwrpasol ac unigol hon ar gyfer carcharorion. Mae dedfrydu llawer o garcharorion a fyddai'n cael eu hadsefydlu'n fwy effeithiol mewn lleoliadau eraill yn golygu bod llawer o garcharorion nad yw'r rhan fwyaf o swyddogion carchardai wedi'u hyfforddi'n ddigonol i'w cefnogi.

## Chwefror 2025: Canllawiau ar yr amodau cadw amgylcheddol

Cynhyrchodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol bapur briffio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caeredin, yn amlinellu pwysigrwydd yr amgylchedd synhwyrdd mewn mannau cadw drwy sain, tymheredd, aer a golau, gan egluro pam eu bod yn haeddu ystyriaeth bellach o dan reolau cadw rhyngwladol. Mae'r canllawiau'n argymhell ystyriaethau allweddol i fonitro mannau cadw.

## Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

Cyfarfu Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon dair gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd, gan fabwysiadu cynllun gwaith newydd a dewis dau fater allweddol:

- Casglu data ar farwolaethau a digwyddiadau niweidiol difrifol yn y ddalfa
- Anhwylderau personoliaeth

Fe wnaethom hefyd gytuno i ychwanegu'r mater o garcharorion yn cael eu dal dros dariff at ein cynllun gwaith ym mis Mawrth 2025.

### Casglu data: marwolaethau a digwyddiadau niweidiol difrifol yn y ddalfa:

Yn dilyn ymarfer casglu gwybodaeth, nododd yr Is-grŵp fylchau yn yr wybodaeth a geir pan fydd digwyddiadau difrifol yn digwydd yn nalfar llys, y Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid, dalfa'r heddlu a charchardai. Mae diffyg diffiniad ar draws lleoliadau cyfiawnder ac felly anghysondebau â lleoliadau iechyd lle mae diffiniad o'r fath yn bodoli. Mae Gweithdrefnau Rhanbarthol yn rhoi diffiniad a throthwyon i ysbytai a chartrefi gofal, ond ar gyfer carchardai, dalfa'r heddlu neu ddalfa'r llys, nid oedd yr un canllawiau ffurfiol. Bydd llenwi'r bylchau hyn yn gwella gwybodaeth, gan ganiatáu ar gyfer argymhellion cyfunol a monitro gweithredu argymhellion yn fwy uniongyrchol, yn ogystal â nodi unrhyw faterion systemig difrifol.

Mae'r Is-grŵp wedi sefydlu deialog gydag awdurdodau ym mhob lleoliad cadw a chydag Ombwdsmon Carcharorion Gogledd Iwerddon ac Ombwdsmon Heddlu Gogledd Iwerddon, i nodi beth sy'n achosi'r bylchau yn yr wybodaeth a geir. Bydd hyn yn golygu bod modd datblygu diffiniadau safonol neu bamedrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau niweidiol difrifol. Sefydlodd Ymwelwyr â Charchardai Annibynnol Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon ddiweddariadau chwarterol gydag Ombwdsmon yr Heddlu.

Erbyn mis Mawrth 2025, sefydlwyd system i dderbyn gwybodaeth gan Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon. Drwy rannu gwybodaeth yn barhaus â'r Ombwdsmon Carcharorion, gwelwyd gwahaniaethau parhaus rhwng yr wybodaeth a rannwyd gan bob un. Roedd gwaith yn parhau i sefydlu system rhannu gwybodaeth debyg ar gyfer dalfa'r heddlu, dalfa'r llys a'r Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid.

### Anhwylderau personoliaeth:

Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 yn cydnabod anhwylder personoliaeth fel anhwylder meddwl ac amod cymhwysu ar gyfer derbyn gorfodol. Prin yw'r gwasanaethau yng ngharchardai Gogledd Iwerddon i gefnogi'r rheini sydd ag anhwylderau personoliaeth ac, yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid yw Amgylcheddau Cynlluniedig sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (PIPEs) ar gael yng Ngogledd Iwerddon. Nid oes lleoliad iechyd meddwl diogel iawn yng Ngogledd Iwerddon (dim ond lleoliad diogelwch canolog). Mae gormod o bobl ar wardiau iechyd meddwl, ac ar adegau efallai y bydd angen trosglwyddo pobl ag anhwylder personoliaeth i leoliad cyfiawnder ym Mhrydain Fawr oherwydd diffyg argaeledd. Yn y tymor hir, bydd angen adolygu deddfwriaeth iechyd meddwl. Yn y tymor byrrach, cytunodd yr Is-grŵp i fynd ar drywydd gwella amodau a thriniaeth pobl ag anhwylder personoliaeth yn y ddalfa, a chodi proffil y mater gyda diwygio fel y nod hirdymor. Dechreuwyd ymchwilio i gasglu gwybodaeth am arferion gorau a phryderon yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer pobl ag anhwylder personoliaeth yn y carchar.

## Carcharorion sy'n cael eu dal dros y tariff

Cafodd carcharorion a oedd yn dal yn y carchar ar ôl i'w tariff ddod i ben ei godi fel mater allweddol ym mis Mawrth 2025. Mae rhwystrau rhag cael gafael ar ymyriadau a rhaglenni i gefnogi eu proses adsefydlu, a dangos tystiolaeth o hynny, yn golygu bod rhai carcharorion yn cael eu dal yn sylweddol dros y tariff. Mae Comisiynwyr Parôl Gogledd Iwerddon yn ystyried bod cyfran lawer is o garcharorion yn cael eu rhyddhau nag mewn awdurdodaethau eraill. Mae rhwystredigaeth carcharorion ynghylch y diffyg cyfleoedd i symud ymlaen tuag at gael eu rhyddhau yn ei dro yn arwain at fwy o ddyfarniadau, a fydd hefyd yn cyfrif yn erbyn rhyddhau rhywun yn y dyfodol. Canfu arolygiad gan yr Arolygiad Cyfiawnder Troseddol o Gomisiynwyr Parôl Gogledd Iwerddon fod 28% o'r boblogaeth a ryddhawyd wedyn yn cael ei galw'n ôl, a disgrifiodd broblemau sylweddol o ran darparu proses yr Uned Datblygu Carcharorion yng ngharchardai Gogledd Iwerddon. Cytunodd yr Is-grŵp i barhau i adolygu hyn a chyfrannu at waith parhaus ar draws y Mecanwaith Atal Cenedlaethol.

## Gwaith parhaus

Fis Chwefror 2025, cyfarfu'r Cadeirydd ac aelodau'r Is-grŵp â chynrychiolwyr o'r Adran Gyfiawnder a'r Adran Iechyd, gan gyflwyno'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol a rôl yr Is-grŵp. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys:

1. Rôl yr Adrannau i gynnal rhwymedigaethau OPCAT o ran adnoddau, annibyniaeth ac ymateb i adroddiadau.
2. Prif faterion sy'n peri pryder i'r Is-grŵp.
3. Annibyniaeth y Mecanwaith Atal Cenedlaethol. Fe wnaethom godi'r cyfyngiadau ar yr Is-grŵp oherwydd nad oedd cyllid ar gael ar gyfer Cydlynnydd penodol.
4. Dyletswydd yr Adrannau i gyflwyno gwybodaeth i'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol.

5. Pwysigrwydd cydweithio rhwng y ddwy Adran ar ymyrraeth gynnar.

Gwahoddodd yr Is-grŵp hefyd sefydliadau newydd i ymuno â'i aelodaeth yn unol â'r model y cytunwyd arno ledled y DU yn dilyn adolygiad o aelodaeth: Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon fel aelod sefydlog a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon fel Aelod Cyswllt. Ymunodd Comisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon â'n cyfarfodydd o fis Mawrth 2025 ymlaen ac maent wedi ychwanegu persbectif gwerthfawr i'n gwaith.



**Rachel Lindsay, Cadeirydd Is-grŵp y Mecanwaith Atal Cenedlaethol Gogledd Iwerddon**



## Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol Yr Alban

Mae'n bleser gennyf rannu gweithgareddau a phryderon Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn yr Alban yn Adroddiad Blynyddol 2024-25. Dechreuais gadeirio cyfarfod Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU yn yr Alban fis Tachwedd 2024, ar ôl dod yn Gadeirydd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban fis Medi 2024.

Mae Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban yn cwrdd bob chwarter, ac mae'n cynnwys chwe chorff craffu yn yr Alban:

- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer Yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstablïaeth EF ar gyfer Yr Alban (HMICS)
- Ymwelwyr â Charchardai Annibynnol yr Alban (ICVS)
- Arolygiaeth Gofal (CI)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS).

Mae gan yr is-grŵp ddau Aelod Cyswllt hefyd: Healthcare Improvement Scotland (HIS) a Chomisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban (CYPCS). Gwahoddwyd y Comisiynydd i ymuno ag Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban fel aelod cyswllt ym mis Mawrth 2024 ac mae wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn yr is-grŵp ers hynny.

Yn 2024-25, roedd materion allweddol ar gyfer Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban yn cynnwys marwolaethau yn y ddalfa a data amser trosglwyddo cleifion ag anghenion iechyd meddwl. Cymerodd aelodau'r is-grŵp ran mewn nifer o weithgareddau sy'n ymwneud ag atal marwolaethau yn y carchar, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgor i greu Mecanwaith Goruchwyllo Cenedlaethol ar gyfer marwolaethau yn y ddalfa yn ogystal â'r Bwrdd Atebolrwydd Gweinidogol i ddal gweinidogion yn atebol am atal rhagor o farwolaethau. Ym mis Gorffennaf 2024, ysgrifennodd yr is-grŵp at Lywodraeth yr Alban yn gofyn a yw'n parhau i dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion a phwyntiau

cynghori o'r Adolygiad Annibynnol o'r Ymateb i Farwolaethau yn y Carchar (2021), gan fod llawer o argymhellion yn dal heb eu gweithredu. Ym mis Awst 2024, cawsom ymateb yn cadarnhau bod Llywodraeth yr Alban yn dal i dderbyn yr holl argymhellion mewn egwyddor. Gyda chefnogaeth yr is-grŵp, sefydlodd Tîm Canolog Mecanwaith Atal Cenedlaethol gronfa ddata hefyd sy'n olrhain yr holl farwolaethau yn y carchar ac adnoddau pwrpasol i adolygu'r holl Ymchwiliadau i Ddamweiniau Angheuol sydd ar gael sy'n ymwneud â charcharu o 2015 ymlaen, er mwyn deall pa mor hir maen nhw wedi bod yn ei gymryd ac a oes argymhellion yn cael eu gwneud.

Yn 2024-25, roedd gan yr is-grŵp bryderon hefyd am y diffyg data ar yr amser a gymerwyd i drosglwyddo carcharorion i welyau iechyd meddwl. Helpodd aelodau'r is-grŵp i ddatblygu'r safon Mecanwaith Atal Cenedlaethol a argymhellir ynghylch casglu'r data hwn yn statudol, gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddeall y sefyllfa bresennol yn yr Alban, a beth y gellid ei wneud i sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu'n gyson i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Roedd materion ychwanegol a oedd yn peri pryder yn yr Alban yn 2024-25 yn cynnwys diffyg ymchwiliad gorfodol i farwolaethau mewn lleoliadau iechyd meddwl, cyfnodau estynedig yn nalfa'r heddlu, plant dan 18 oed yn cael eu cadw yng nghanolfannau dalfa'r heddlu, diffyg capasiti mewn gwasanaethau llety diogel i blant dan 18 oed, gorboblogi cronig mewn carchardai, yn ogystal â marwolaethau oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a chyffuriau mewn carchardai. Roedd pryderon ychwanegol a oedd yn rhychwantu pob lleoliad yn cynnwys dibynadwyedd trafndiaeth ddiogel, defnyddio grym, ynysu ac atal, a phrinder staff.

Arweiniodd gwaith cydweithredol rhwng cyrff Mecanwaith Atal Cenedlaethol at ganlyniadau pwerus yn 2024-25. Fis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban adroddiad ar y cyd, sef **Review...Recommend...Repeat... An assessment of where human rights have stalled in places of detention**, gan dynnu sylw at y diffyg gweithredu gan swyddogion dyletswyddau yn yr Alban i weithredu argymhellion a wnaed gan gyrff hawliau dynol rhyngwladol. Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r gwaith o ymgysylltu ar y mater hwn ag Angela Constance, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, a'i thîm wedi bod yn mynd rhagddo, gan ein bod wedi annog camau pellach i gyflawni a dangos gwelliannau canlyniadau ystyrion hirddisgwyliedig i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn yr Alban.

Rhodddwyd blwyddyn ychwanegol o gyllid i'r rhaglen arolygu ar y cyd rhwng Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Fawrhydi yn yr Alban a HIS ganol 2024, gan alluogi cyd-graffu parhaus ar ganolfannau dalfa'r heddlu. Yn 2024-25, defnyddiodd Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban eu pwerau ymchwilio statudol i ymchwilio i ddefnydd yr heddlu o rym yn erbyn plant dan 18 oed, gyda chymorth tîm canolog Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU.

Fis Awst 2024, fe wnaethom groesawu deddfwriaeth a ddaeth i rym a oedd yn gwahardd plant dan 18 oed rhag cael eu cadw mewn carchardai neu sefydliadau troseddwr ifanc. Fodd bynnag, mae'r is-grŵp yn dal i boeni am bobl ifanc yn cael eu trosglwyddo i Sefydliad Troseddwr Ifanc Carchar EF Polmont ar ôl troi'n 18 oed pan nad oes ganddynt ond ychydig wythnosau ar ôl ar eu dedfryd, gan y gall y newid hwn fod yn anodd i bobl ifanc, gan beri risg o achosi lefelau anghymesur o ofid. Fis Ebrill 2025, ysgrifennodd yr is-grŵp at y Gweinidog Plant a Phobl Ifanc, sef Natalie Don-Innes, i fynegi ein pryderon am y pwnc hwn.

Yn 2024-25, cyflawnodd aelodau'r is-grŵp waith pwysig hefyd yn unigol ac ar y cyd, gan gynnwys dros 50 o adroddiadau arolygu a thematig ac ymchwiliadau sy'n ymwneud â mandad OPCAT, fel:

- **A Thematic review of prison-based social work**, Care Inspectorate and HMIPS, Ebrill 2024
- **'Planned Failure' - A Thematic Review of Prisoner Transport Services in Scotland**, Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer yr Alban, Rhagfyr 2024
- **Tick Tock: A human rights assessment of progress from institutionalisation to independent living in Scotland**, Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban, Ionawr 2025.

Mae wedi bod yn bleser cadeirio Is-grŵp Mecanwaith Atal Cenedlaethol yr Alban yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddal swyddogion dyletswyddau i gyfrif am eu cyfrifoldeb i ddiogelu hawliau unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn yr Alban.



**Angela O'Hagan,**  
**Cadeirydd Is-grŵp Mecanwaith**  
**Atal Cenedlaethol yr Alban**

# Deddfwriaeth ddrafft a deddfwriaeth bresennol



## Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith, Erthygl 19 (c):

**Caiff y mecanweithiau atal cenedlaethol y pŵer canlynol o leiaf:**

**Cyflwyno cynigion a sylwadau ynghylch deddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft.**

Mae'r gallu i roi sylwadau ar sut mae cyfreithiau presennol yn effeithio ar bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, a sut gallai cyfreithiau newydd effeithio ar bobl yn ffordd bwysig i'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol atal triniaeth wael drwy gamau gweithredu neu amodau mewn manau cadw. Er bod mesurau penodol gerbron seneddau'r DU yn codi goblygiadau uniongyrchol i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, roedd y flwyddyn adrodd yn gyffredinol yn cynnwys cefndir o sgysiau gwleidyddol i newid y defnydd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Er bod y rhan fwyaf o sgysiau wedi ymwneud ag Erthygl 8, sef yr hawl i fwynhau bywyd preifat a theuluol, yn gynyddol maent wedi troi at Erthygl 3, sef y gwaharddiad ar artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall.

## Deddfwriaeth iechyd meddwl: angen diwygio ledled y DU

Cymerodd tîm canolog Mecanwaith Atal Cenedlaethol, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Byrddau Monitro Annibynnol ac AGIC ran yng ngwaith craffu deddfwriaethol y Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol (JCHR) ar y Bil Iechyd Meddwl, neu yng nghais y Pwyllgor Bil Cyhoeddus am dystiolaeth. Cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi ym mis Tachwedd 2024, a dechreuodd y Pwyllgor ei adolygiad ar 14 Ionawr 2025. Cyflwynodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU ar 25 Ionawr, gan ganolbwyntio ar gwestiynau dau, tri a phedwar:

- Amddifadu o ryddid yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ryddhad amodol
- Rhyngweithio rhwng Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005

- Unrhyw faterion eraill o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Roedd cyflwyniad y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn nodi pryderon manwl ynghylch monitro trosglwyddiadau, rhyddhad amodol, tegwch a mesurau diogelu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig. Mae menywod yn dal i gael eu hanfon i'r carchar ar sail iechyd meddwl yn unig, ar remand er mwyn eu "diogelwch eu hunain" dan Ddeddf Mechniaeth 1976, neu i'r carchar fel "man diogel" dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Nid yw carchardai'n amgylchedd priodol na therapiwtig i bobl a ddylai fod yn cael triniaeth feddygol briodol ar gyfer anghenion iechyd meddwl. Mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn cynnig dileu carchar fel man diogel a rhoi terfyn ar remandio er mwyn eu diogelwch eu hunain yn unig am resymau iechyd meddwl dan y Ddeddf Mechniaeth. Mae'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn cefnogi hyn.

Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynig mewnbyn a sylwadau ar gynigion yn y Bil, ac mae wedi ymgysylltu'n helaeth â swyddogion, Gweinidogion a Seneddwy'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd. Bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o weithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl ddiwygiedig gan y bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gyflawni rhywfaint o'r deddfwriaeth ddiwygiedig. Bydd hyn yn cynnwys y newidiadau i'r mesurau diogelu ail farn, a bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal hefyd yn monitro gweithrediad y diwygiadau fel rhan o ddyletswyddau monitro adran 120 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn yr Alban, araf fu'r broses o weithredu 202 o argymhellion a wnaed yn Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban 2022 (SMHLR), ac mae angen newid o hyd i gysoni'r gyfraith â safonau hawliau dynol rhyngwladol, fel yr archwiliwyd yn yr adrannau blaenorol. Roedd y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn disgwyl diwygiad dan yr Adolygiad hwn i Ddeddf Oedolion ag Analluedd (Yr Alban) 2000, sy'n darparu fframwaith i ddiogelu

lles oedolion nad oes ganddynt allu i wneud rhai penderfyniadau neu bob penderfyniad oherwydd salwch meddwl, anabledd dysgu, dementia neu gyflwr cysylltiedig, neu anallu i gyfathrebu. Fodd bynnag, gohiriwyd y diwygiad tan Senedd nesaf yr Alban. Dros y flwyddyn, bu Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban yn gweithio gydag NHS Education for Scotland i wella dealltwriaeth o'r Ddeddf Oedolion ag Analluedd ar gyfer staff iechyd, gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol ledled yr Alban, a chyfrannodd at ddwy flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth yr Alban mewn ymateb i'r Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban: Diwygio Deddf Oedolion gyda Analluogrwydd, a'r diffiniad o anhwylder meddwl.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae gwaith yn mynd rhagddo ar Ddechrau Darpariaethau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon (2016)). Cyfrannodd yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd at ymgynghoriad ar gychwyn adrannau 9(4) (a) a 12, sy'n ymwneud â gweithredoedd atal a'r cod ymarfer cysylltiedig.<sup>50</sup> Pan fydd y Ddeddf wedi'i chychwyn yn llawn, bydd yn cyfuno galluedd meddyliol a chyfraith iechyd meddwl i'r rheini sy'n 16 oed a hŷn mewn un darn o ddeddfwriaeth, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Bamford o Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu. Fodd bynnag, mae gweithredu fesul cam wedi creu heriau i Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Brys fel Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Iwerddon a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn gyfraith ar 24 Mawrth 2025, gyda'r nod o ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Bydd hefyd yn gwneud diwygiadau i sicrhau bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gallu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.<sup>51</sup> Bydd angen monitro cynnydd y cynllun uchelgeisiol hwn yn ofalus.

## Newidiadau dedfrydu

Cyflwynwyd y Bil Dedfrydu i Dŷ'r Cyffredin ar 2 Medi 2025. Er ei fod y tu allan i'r cyfnod adrodd, cafodd y Bil ei lywio gan Adolygiad Dedfrydu annibynnol 2024 i 2025 ac mae'n dilyn nifer o newidiadau tymor byrrach i arferion dedfrydu ledled y DU. Fis Mehefin 2024, cymeradwyodd Senedd yr Alban Ryddhau Unigolion yn Gynnar mewn Argyfwng oherwydd y cynnydd cyflym ym mhoblogaeth carchardai, a oedd eisoes yn uchel ac yn gymhleth iawn.<sup>52</sup> Fis Gorffennaf 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU fenter rhyddhau cynnar newydd o'r enw SDS 40, sy'n caniatáu i garcharorion sy'n bwrw dedfryd benodol safonol gymwys gael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl bwrw 40% yn hytrach na 50% o'r ddedfryd honno yn y ddalfa. Rhyddhawyd 3,112 o garcharorion ar draws dau ddyddiad gwahanol ym mis Medi a mis Hydref 2024, ond parhaodd poblogaeth y carchardai i dyfu. Roedd rhoi Operations Safeguard ac Early Dawn ar waith, a ffurfio'r Bwrdd Cyfiawnder Menywod, hefyd wedi mynd ar drywydd newidiadau mewn dulliau dedfrydu. Fodd bynnag, nid oedd cyfanswm poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr wedi newid bron dim o Ionawr i Fawrth 2025, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. Cynyddodd derbyniadau cyntaf 3%.

Yn ei gyflwyniad i'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol ym mis Ionawr 2025, amlinellodd Mecanwaith Atal Cenedlaethol y DU bryderon am effeithiau chwyddiant dedfrydu gan gynnwys gorboblogi, materion iechyd meddwl heb gael sylw, ynysu a threfn dan fygythiad.

- 
- 50 [Ymgynghoriad ar Ddechrau Darpariaethau o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol \(Gogledd Iwerddon\) 2016 sy'n ymwneud â "Gweithredoedd Atal" - Rhagfyr 2024 - NI Direct - Citizen Space](#)
- 51 [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2025](#)
- 52 [Rhyddhau Cynnar mewn Argyfwng ym mis Mehefin 2024 - Gwasanaeth Carchardai'r Alban](#)

Roedd cyflwyniad y Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn nodi na fydd edrych ar fater gorlenwi o safbwynt gofod yn unig (sef peidio ag ystyried argymhelliad y Pwyllgor ar bolisi ac ymarfer dedfrydu) yn datrys y broblem. Nid dim ond nifer y bobl mewn gofod sy'n effeithio ar orlenwi; mae ansawdd ffisegol y gofod hwnnw, gallu staff i'w cefnogi a pharodrwydd ar gyfer anghenion cynyddol gymhleth unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, i gyd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr hawl nid yn unig yn cael ei gwireddu i fod yn rhydd o driniaeth wael, ond holl elfennau'r hawliau fel hawliau i breifatrwydd, i safon ddigonol o iechyd, ac urddas sylfaenol pobl.

Mae ffigurau cyhoeddus am orboblogi yn artiffisial o isel oherwydd nad ydynt yn ystyried sefydliadau nad ydynt yn addas i'r diben ac y dylid eu cau. Pe bai'r rhain yn cael eu datgomisiynu, fel y gallai safonau rhyngwladol ar driniaeth urddasol fod yn ofynnol, byddai'r ffigurau'n llawer uwch. Byddai gostyngiad ym mhoblogaeth carchardai yn caniatáu i gyfleusterau gael eu cau mewn cylchdro i'w trwsio a'u hadnewyddu, gan alluogi'r DU i sicrhau safon byw urddasol i garcharorion ac i gynig gwasanaeth adsefydlu gweithredol.

Mae diwygiadau arfaethedig i'r Mesur Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys rhai newidiadau a allai effeithio ar amgylchedd y ddalffa.<sup>53</sup> Gobeithir y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn cynnig gwell amddiffyniad i blant a phobl ifanc drwy sicrhau mai dim ond mewn cyfleuster carcharu ieuencid y cânt eu cadw, yn hytrach na'r heddlu neu'r ddalffa.<sup>54</sup> Roedd diwygiadau i ddeddfwriaeth/PACE ynghylch hawliau plant i fechnïaeth/llety amgen yn fater allweddol i'r Arolygiad Cyfiawnder Troseddol a'r Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd.

Bu adolygiad annibynnol o wasanaethau plant yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn craffu ar y defnydd o'r Ganolfan Cyfiawnder Ieuencid a'r Ganolfan Gofal Diogel Ranbarthol.<sup>55</sup> Mae'r Bil yn cryfhau'r rhagdybiaeth o fechnïaeth ac yn cynnwys mechnïaeth ddiamedd i blant fel mater o drefn, gan gyflwyno amodau penodol ar gyfer remandio plentyn yn y ddalffa. Gobeithio y bydd cynnwys terfynol a gweithrediad y Ddeddf newydd yn gwella'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant 'sy'n Derbyn Gofal', sy'n cyfrif am bron i hanner yr holl blant a gafodd eu cadw yn nalfar heddlu eleni, ond mae'r Bil yn annhebygol o gael cydsyniad brenhinol cyn diwedd 2026. Bydd y rhannau hynny sy'n ymwneud â mechnïaeth a llety yn cychwyn drwy Orchymyn.

53 [Y Pwyllgor Cyfiawnder - Deddfwriaeth Sylfaenol; Y Bil Cyfiawnder - Hydref 2024 - Cynulliad Gogledd Iwerddon](#)

54 [Mesur Cyfiawnder yn cymryd y camau cyntaf yn y Cynulliad | Adran Cyfiawnder](#)

55 [Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant yng Ngogledd Iwerddon; Adolygiad Annibynnol - Mehefin 2023 - Adolygiad Gogledd Iwerddon CSCS](#)

ISBN 978-1-5286-6108-9  
E03490465